ECO'R WYDDFA

RHIF 99 RHAGFYR 1984 IONAWR 1985 Pris: 20c

NADOLIG LLAWEN

A BLWYDDYN NEWYDD DDA

I'N HOLL DDARLLENWYR!



# CYFNOD Y DATHLU

## EMMA YN FLWYDD



*Dyma lun Emma Victoria, merch fach Gareth a Deirdre Parry. Bydd Emma yn dathlu ei phen-blwydd cyntaf ar Ragfyr 23. Fel y gwelwch yn y llun mae'n faban rhadlon, llond ei chroen ond nid dyna oedd ei hanes. Fe'i ganwyd 14 wythnos o flaen ei hamser yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor yn pwyso 1 pwys 15 owns (llai na phaced o sigwr) ac yno fe'i bedyddiwyd. Bregys iawn oedd ei chyflwr ac aeth i lawr i 1 pwys 9 owns. Aethwyd â hi i Uned Ofal Arbennig Babanod yn Ysbyty Mamolaeth Lerpwl lle y bu am 8 wythnos, ac yna yn ôl i Uned Arbennig Ysbyty Dewi Sant, Bangor am 7 wythnos arall. Tri mis o ofid arteithiol i'w rhieni a'i theulu, ond yna, ar Fawrth 23, er eu llawenydd, fe ddaeth adref i 10 Stryd y Dŵr, Llanberis yn pwyso 5 pwys 1 owns. Erbyn hyn mae'r teulu bach yn byw yn 43 Bro Enddwyn, Dyffryn Ardudwy ac Emma fach yn pwyso 16 pwys ac yn cropian i bob man. Diolch am ofal gofalus yr ysbytai, cariad ei rhieni ac yn fwy na dim am wroldeb Emma fach ei hun. Nadolig gorfoleddus fydd hwn i Gareth a Deirdre, ac hefyd i'r ddwy nain a'r ddau daid, Hugh a Rita Morris, 26 Maes Padarn, Llanberis ac Alf a Mai Parry, 2 Bryn Heli, Llanrug. Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Emma fach a'i rhieni.*

## Y GENI



*Yng nghanol yr hwyl a'r miri dyma'r plant i'n hatgoffa'n dawel fod Iesu Grist hefyd yn dathlu ei ben-blwydd.*

## CANGEN BETHEL YN 10 OED



*Llongyfarchiadau i gangen Bethel o'r Urdd ar gyrraedd eu degfed pen-blwydd. Yn y llun mae Richard Ll. Jones yn cyflwyno tarian i ddathlu'r achlysur i Meinir Williams a Gwenan Elis, sef yr hynaf a'r ieuengaf yn y gangen.*

*Mae'r hanes ar dud 16 ac 17.*

## DENG MLYNEDD O ADDYSG FEITHRIN YN NEINIOLEN



**MAE Ysgol Feithrin Deiniolen wedi dathlu ei phen-blwydd yn ddeg oed eleni. Ar Orffennaf 17, 1974 y cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf i drafod sefydlu Ysgol Feithrin yn y pentref. Roedd 13 o famau'n bresennol, ac etholwyd y pwyllgor canlynol:**

**Cadeirydd:** Mrs Ros Hughes, **Llywydd:** Nyrs Hughes, Trefor (Ymwelydd Iechyd); **Trysorydd:** Mrs Osborne, Gallt y Foel; **Ysgrifenyddes:** Mrs Valmai Williams; **Athrawes:** Mrs Eluned Jones.

**Erbyn diwedd y mis roedd 10 o blant ar y rhestr, yn y cyfarfod ar ddau fore'r wythnos yn y Ficerdy – am dâl o 30 ceiniog yr wythnos.**

Dyma bigion o gofnodion mwyaf diddorol yr Ysgol Feithrin dros y deng mlynedd diwethaf:

**Medi 1974**: trefniadau i godi arian: noson yng ngofal Mr Meirion Jones a noson goffi. Bu'r ddwy noson mor llwyddiannus fel yr agorwyd yr Ysgol Feithrin ar Hydref 29.

**Mai 1975**: Problem iaith, penderfynwyd mai plant Cymry Cymraeg fyddai'n y mwyafrif yn yr Ysgol Feithrin.

**Hydref 1975**: Sôn am symud yr ysgol i adeilad yr hen Ysgol Fabanod. Cyflwyno anrheg i Mrs Ros Hughes am ei gwaith yn cychwyn yr Ysgol Feithrin.

**Tachwedd 1975**: yr ysgol yn cael ei chynnal yn y Clinic dros dro.

**Hydref 1976**: athrawes newydd (Mrs Jeni Morgan) yn dechrau ar ei gwaith, yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Elfrys Jones. Sefydlu'r ysgol yn yr adeilad presennol – yr hen 'nyrseri'. Penderfynu i agor am dri bore'r wythnos.

**Ionawr 1977**: dim pwyllgor oherwydd tywydd mawr.

**Mai 1977**: rhoi anrheg Jiwbili (crib gwallt mewn cas lledr) i bob un o'r plant.

*Parhad ar dud 22*

## Y CANFED RHIFYN

Tro'r Eco ei hun fydd dathlu'r ym mis Chwefror – sef dathlu'r Canfed Rhifyn. Cofiwch amdano!

## CYNTAF DRWY GYMRU

Â'r Eco ar fin mynd i'r wasg clywsom y newyddion da am Gwynfryn Williams o Benisarwaun a ddaeth yn gyntaf mewn cystadleuaeth codi pwysau i fechgyn Ysgol Cymru (dan 16 oed) yng Nghaerdydd. Dim ond 14 oed yw Gwynfryn.

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 99**
**RHAGFYR 1984**
**IONAWR 1985**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION**: Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION**: Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS**: Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**FFOTOGRAFFYDD:** Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 77163).
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)
**TREFNYDD HYSBYSEBION**: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT**: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)
**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL**: D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN**: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)
**DINORWIG**: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS**: Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**LLANRUG**: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**NANT PERIS**: Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis 870 733).
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth, Bryneglwys (Llanberis 872407)
**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU**: Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)


# LLYTHYRAU

*Annwyl Olygydd,*
*SEFYDLU CYMDEITHAS HANES BRO'R ECO*

*Ys gwn i a oes diddordeb gan rai o ddarllenwyr 'Eco'r Wyddfa' mewn sefydlu Cymdeithas Hanes ar gyfer y fro?*

*Fe sefydlwyd cymdeithas lwyddiannus iawn yn ddiweddar ar gyfer Dyffryn Nantlle ac rwy'n sicr fod diddordeb amlwg yn hanes y fro hon hefyd. Er enghraifft, yn ystod yr hydref cynhaliwyd dosbarth WEA ar hanes y cylch yn Ysgol Gynradd, Llanrug a denodd ddilynwyr brwd o bob cwr o'r fro. Hwn yn wir oedd yy mwyaf o holl ddosbarthiadau WEA gyda aelod.*

*Mater i'r aelodau'n amlwg fyddai rhaglen y Gymdeithas Hanes ond mae'n debyg mai'r patrwm fyddai cyfarfod unwaith y mis hwnt ac yma ar draws y fro — ceid sgyrsiau gan arbenigwyr ar wahanol bynciau yn ystod y gaeaf ac ymweliadau â mannau diddorol ym misoedd yr haf. Gellid hefyd sbarduno ymchwil i feysydd na wyddys digon amdanynt ac o bosibl gyhoeddi ffrwyth yr ymchwil mewn cylchgrawn hanes neu yn 'Eco'r Wyddfa'.*

*Mae llawer eisoes wedi dangos diddordeb. 'Does dim raid ichi fod yn arbenigwr a dim ots beth yw'ch oedran byddem oll yn dysgu gyda'n gilydd a chael hwyr fawr yr un pryd!*

*Os ydyych â diddordeb neu eisiau gwybod rhagor cysylltwch yn y lle cyntaf â mi, John Roberts, yn y cyfeiriad uchod. Y ffôn yw* **Caernarfon 5605**. *Os yw'r syniad yn apelio fe elwir cyfarfod yn gynnar yn y flwyddyn newydd.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*R. John Roberts*
*Bedw Gwynion*
*Ffordd Glanffynnon*
*Llanrug*

## APÊL NADOLIG Y GLOWYR

*Annwyl Gyfeillion;*

*Fel y gwyddoch mae nifer fawr o lowyr Pwll Glanrafon (Bersham) wedi dychwelyd i'w gwaith, ond ar waethaf pob ymdrech gan y Bwrdd Glo i'w prynu mae nifer sydd yn benderfynol o ddal ati a bu nifer sylweddol ar streic yn y Parlwr Du o'r cychwyn. Erbyn hyn buont allan ers naw mis a gyda'r Nadolig yn nesau mae mwy fyth o angen ein cymorth ni oll arnynt. Penderfynodd Pwyllgor Wrecsam Dros Gefnogi'r Glowyr sicrhau y bydd twrci ar bob bwrdd ac anrheg i bob plentyn felly apeliwn arnoch i anfon cyfraniadau mawr a mân i:* **Apêl y Glowyr, y.o. N.G.A., Llawr 2, Centenary Buildings, Stryd y Brenin, Wrecsam.**

**Yn ddiolchgar,**
**Alec Taylor (Ysg.**

## LLYTHYR AGORED AT GYNGHORWYR CYMUNED DOSBARTH A SIR

Mewn ymateb i'r ddirprwyaeth o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg â'r Swyddfa Gymreig yn gynharach eleni datgenwyd yn ddigon clir bod gan y Cynghorau Dosbarth a'r Cynghorau Sir yr hawl i baratoi adroddiadau "ar unrhyw destun a ddymunant, gan gynnwys yr iaith Gymraeg." Dyma arwydd glir o sut i gymryd cam cadarnhaol i sicrhau parhad yr iaith Gymraeg – rhoi statws cynllunio i'r iaith Gymraeg, gan wneud hyn yn ffurfiol, ac yna mynd ati i ymchwilio i gyflwr yr iaith Gymraeg ym mhob cymuned.

Bu Cymdeithas yr Iaith yn pwyso ar gynghorau ac ar gynghorwyr Sir a Dosbarth, yn arbennig yng Nghlwyd, i ddangos eu hewyllys da i'r iaith Gymraeg trwy weithredu yn y modd yma. Mae paratoi adroddiad pwnc ar yr iaith Gymraeg yn golygu nid yn unig gwneud adroddiad ar gyflwr yr iaith ond hefyd paratoi argymhellion ar sut i geisio'i diogelu – ond dylid hefyd mynd gam ymhellach trwy gynnwys argymhellion ar sut i gryfhau'r iaith. Yn wyneb y duedd cynyddol i ganoli grym ac i danseilio awdurdod awdurdodau lleol trwy ganiatáu i'r farchnad-rhydd cael rhwydd hynt i reoli, ni fydd adroddiadau ar yr iaith Gymraeg, ynddynt eu hunain yn sicrhau dyfodol i'r iaith. Ond o leiaf bydd hyn yn dangos teyrngarwch y cynghorwyr at y Gymraeg ac yn gosod sylfaen i'w ddefnyddio yn erbyn unrhyw fygythiad i newid cymeriad ardal gyda datblygiadau anghydnaws ac annerbyniol i'r gymuned leol.

Yn y cyswllt yma y mae gan ein cynghorau cymuned swyddogaeth allweddol. Ar hyn o bryd y tueddiad ganddynt yw ymateb i gynlluniau sy'n effeithio'r ardaloedd gan wneud awgrymiadau o blaid neu yn erbyn unrhyw gynllun. Awgrymaf bod modd iddynt i wneud llawer iawn mwy na hynny. Gan mai dyma'r cynghorau sydd agosaf at y bobl a'r cymunedau, mewn sawl ystyr, gallant baratoi awgrymiadau ar sut i ddiogelu ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar y lefel mwyaf sylfaenol, e.e., trwy nodi sut y gellid cryfhau statws y Gymraeg yn y gymuned leol a thrwy geisio pontio'r agendor rhwng y Cymry Cymraeg a'r Cymry di-Gymraeg lle mae hyn yn berthnasol. Mae yna fygythiad difrifol i'r tiriogaethau naturiol Cymraeg eu hiaith a rhaid wrth ymateb ar fyrder. Gellid datblygu hyn fwy fyth trwy ddefnyddio'r papurau bro nid yn unig i wyntyllu anghenion yr iaith Gymraeg yn eu hardaloedd, ond fel y gwneir mewn rhai papurau, canmol a chefnogi'r gweithredoedd sydd o fudd i'r Gymraeg.

Mae'r Swyddfa Gymreig wedi rhoi'r bêl yn nwylo'r Cynghorwyr – boed iddynt ymateb yn ddoeth ac yn gadarn. Rhaid wrth fwy nag ewyllys da i'r iaith Gymraeg, ac efallai bod tynged yr iaith yn dibynnu yn llawer iawn fwy nag a ymddangosodd hyd yn hyn ar ein cynrychiolwyr ar y cynghorau. Cawn weld ymhen blwyddyn faint sydd o ddifri ynghylch y Gymraeg.

## MORDAITH I'R ANABL

**Mae'r Urdd yn bwriadu trefnu dwy fordaith hwylio yn ystod haf 1985, gan roi cyfle i unigolion abl ac anabl yn gorfforol, i hwylio cwch o Abertawe trwy fae Ceredigion ar y fordaith gyntaf, ac o Lerpwl i Abertawe ar yr ail.**

Gall unrhyw aelod o'r Urdd dros 16 oed ymuno â'r teithiau hyn, a chael cyfle bythgofiadwy i ennill profiad ar hwylio "square rigger" hen ffasiwn.

**Dyddiadau**
Mordaith 1: Abertawe i Lerpwl, 17-26 Mehefin, 1985 (Pris £200)
Mordaith 2: Lerpwl i Abertawe, 29 Gorffennaf - 7 Awst (Pris 235)

**Y Llong**
"Square Rigger" a adeiladwyd yn 1949 yw'r "Soren Larsen". Mae ganddi 5800 troedfedd sgwâr o hwyliau ac injan 240 h.p. Mae'n 105 troedfedd o hyd gyda chyfleusterau arbennig ar gyfer yr anabl. Dyma'r llong sydd i'w gweld yn yyr "Onedin Line" ar y teledu.

**Y Criw**
Mae criw parhaol profiadol o 7 sy'n cynnwys swyddog meddygol. Mae lle wedyn i 22 arall ar bob taith. Bydd 11 o'r rhain yn Gyymry anabl gan adael lle i 11 o aelodau'r Urdd. Mae eisiau 4 arweinyydd o 4 aelod i weithredu fel "llongwyr". Nid oes raid i neb arall fod ag unrhyw brofiad gan y bydd pawb yn cydweithredu yn ôl ei allu i hwylio'r llong.

## CYRSIAU I DDYSGWYR

Mae Grŵp Dysgwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi'i sefydlu ers blynyddoedd bellach ar gyfer helpu dysgwyr o bob safon, gan drefnu cyrsiau yng Nghymru. Yn ddiweddar cynhaliwyd cwrs penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog; ar y cwrs roedd chwech grŵp o safonau gwahanol, cafwyd sgwrs gan ŵr gwadd, chwaraeon iaith, a noson gymdeithasol. Fe fydd y cwrs nesaf ym mis Ionawr o 11-13, gan ddathlu'r Calan gyda'r Fari Lwyd, a gwestai arbennig o Gaerdydd, a chwrs arall yn Llangrannog ym mis Mawrth 22-24. Unwaith eto, fe fydd gwersi i ddysgwyr o bob safon, bwyd da y cyfan am £21 yn unig. Os ydych am wybodaeth bellach am gyrsiau cysylltwch â ni – Grŵp Dysgwyr, Swyddfa'r Gymdeithas, 5 Maes Albert, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn (0970) 4501.


## AR WERTH

VOLVO ESTATE 1974. Da iawn yn fecanyddol ond y corff eisiau sylw. Ffoniwch Y Felinheli (Portdinorwig 670556).


## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**IONAWR 31**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH IONAWR 22**
os gwelwch yn dda

# DÔS O FFISIG FOWLER?

**MAE Mr Norman Fowler, yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu arbed arian i'r Gwasanaeth Iechyd. Er fwriad yw gwneud i CHI, y cleifion, dalu am eich ffisig a'ch tabledi. Mae Mr Fowler yn dadlau y bydd y dull newydd yn rhatach na chost prescripsiwn – sy'n codi i £1.80 o fis Ebrill nesaf ymlaen.**

Ar hyn o bryd, mae'r henoed, y di-waith a phlant yn cael eu moddion am ddim – a nhw sydd yn y mwyafrif. Dan y drefn newydd **bydd yn rhaid iddynt dalu**. Bydd llawer o feddyginiaethau i'w cael ar brescripsiwn preifat oddi wrth fferyllydd, ond bydd yn rhaid **talu amdanynt**. Dyma **rai** o'r moddion:

**Rhatach**

*(h.y. rhatach na phris prescripsiwn — £1.80)*

Mucaine – tua £1.20
Asilone – tua £1.20
Senokot – tua £1.00
Benylin Expect – tua £1.50
Calpol – tua £1.20
Multivite – tua £1.50

**Drutach**

*(h.y. drutach na phris prescripsiwn — £1.80)*

Altacite – tua £7.50
Dorbanex – tua £3.50
Actifed – tua £2.20
Codis – tua £2.00
Distalgesic – tua £3.10 am 100
Panadeine – tua £3.70 am 100
Ponstan – tua £7.00 am 100
Orovite 7 – tua £4.20 am 30 sachet
Frisium – tua £10.00 am 100
Librium – tua £2.20 am 100
Tranxene – tua £7.50 am 100
Valium 5 – tua £2.40 am 100
Mogadon – tua £4.50 am 100

Ni fydd gan eich meddyg hawl i roi'r moddion uchod i chwi, dim ond rhoi prescripsiwn i chwi i fynd at y fferyllydd – a thalu amdanynt ar y prisiau uchod.

Nid yw Norman Fowler wedi penderfynu eto ar y dull o 'werthu' rhai moddion eraill, ond pan ofynnwyd iddo a fyddai ar unrhyw amser yn y dyfodol yn ychwanegu at y rhestr wreiddiol, ei ateb oedd, "Ni fydd gwleidydd byth yn dweud 'byth'."

Ar hyn o bryd mae meddygon y cylch yn cynnal cymorthfeydd ym mhentrefi Deiniolen, Bethel, Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr – lle mae'n bosibl cael moddion ganddynt. Dan y drefn newydd, bydd yn parhau'n bosibl iddynt roi **rhai** mathau o gyffuriau, ffisig a thabledi i'r cleifion – ond cyfyngir ar y rhestr. Bydd gweddill y meddyginiaethau ar gael gan fferyllydd. **Ni chaiff meddygon yr hawl i werthu meddyginiaethau i chwi.** Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i bawb sydd angen meddyginiaethau (fel yn y rhestr uchod) gael prescripsiwn gan eu meddyg, ac yna deithio i Lanberis, Caernarfon neu Fangor i'w **prynu gan fferyllydd**. Mewn ardaloedd gwledig (fel bro'r 'Eco'), mae hyn yn golygu côst ychwanegol i'r claf – pris car, bws neu dacsi. Faint a olyga hyn mewn arian ac amser tybed?

Dyma enghraifft i ddangos beth a olygir gan y newidiadau:

**A – Y Sustem Bresennol**

Mae claf o Ddinorwig angen teithio i Ddeiniolen i'r syrjeri agosaf. Yno, caiff ei weld gan y meddyg, caiff brescripsiwn, a chaiff ei ffisig neu ei dabledi **yn y syrjeri** cyn teithio'n ôl i Ddinorwig.

**B – Sustem 'Rhatach' Norman Fowler**

Mae claf o Ddinorwig angen teithio i Ddeiniolen i'r syrjeri agosaf. Yno, caiff ei weld gan y meddyg. Gall y meddyg gynnig rhai mathau o feddyginiaethau yn unig iddo. Os oes angen ffisig neu dabledi eraill ar y claf (fel yn y rhestr uchod), ni chaiff y meddyg eu gwerthu iddo, ond gall roi prescripsiwn iddo i fynd at fferyllydd – yng Nghaernarfon, sef taith o tua 40 munud mewn bws ar gost tocyn dwyffordd o tua £1.85. Yng Nghaernarfon, rhaid talu i fferyllydd am ei foddion a theithio am 40 munud arall yn ôl i Ddinorwig.

Rhatach? Mwy cyfleus?

A ydych chi'n cytuno â'r sustem newydd? Ydych chi'n fodlon ar ffisig Fowler? A fydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch chwi? Neu'ch plant? Neu'ch cymdogion? Neu'r methedig, yr hen a'r anghennus?

Os ydych yn anghytuno â'r drefn newydd, mae gennych gyfle i wrthwynebu – ond **dim ond hyd ddiwedd y flwyddyn**! Cysylltwch ar frys â'ch Aelod Seneddol neu ysgrifennwch yn syth at Norman Fowler, Tŷ'r Cyffredin, Llundain SW1A OAA. **Bydd yn rhy hwyr cwyno'r flwyddyn nesaf.**

**Mae Cyngor Cymuned Llanrug am ysgrifennu at Norman Fowler, A.S. a Dafydd Wigley, A.S. i brotestio – ac maent yn erfyn ar i bawb o'r cyhoedd wneud yr un modd.**

# MAN CYFARFOD





*Penllyn: Un o'r mannau cyfarfod harddaf yng Nghymru, ac fel y dengys y lluniau, cyrchfan i genedlaethau o bobl ifanc Bryn'refail. Diolch i Mrs G. Jones, 2 Ffordd Madoc, Bryn'refail am gael benthyg y lluniau o ddau griw o'r gorffennol agos.*

# DINORWIG

*GOHEBYDD — Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)*

CYMDEITHAS UNDEBOL LENYDDOL: Yn y Ganolfan nos Iau, Tachwedd 22 cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Arthur Rowlands, Caernarfon ar y cŵn sydd wedi bod yn ei feddiant, a'i brofiadau wedi ei ddallineb. Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau gan Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian a thalwyd y diolchiadau i'r siaradwr gan Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch.

YN 21ain OED: Pen-blwydd hapus iawn a phob lwc i'r dyfodol i Mr Trebor Thomas, Bwlch y Gwynt, ar ei ben-blwydd yn 21ain oed yn ddiweddar.

DYMUNIADAU PEN-BLWYDD: Dymuniadau gorau ar ei phen-blwydd yn 87 ar Ragfyr 11 i Mrs Kate Jones, Foel-y-gron.

COFION: Ein cofion at y ddarllenwyr yr 'Eco' sy'n cwyno yn eu cartrefi, a'r dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Hapus i bawb o'r ardalwyr.

DIOLCH: Dymuna Trebor Thomas, Bwlch Gwynt, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion, a ffrindiau am y llu o gardiau, rhoddion mewn arian, ac anrhegion, a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 21ain oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb. Hoffai hefyd ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn yr ardal.


CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

MAE'R SAMARIAID
YN GWRANDO, YN ABBEY ROAD
BANGOR
354646

GWYNETH ROBERTS
Siop
E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS 870491
Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!

# PENISARWAUN

**Gohebydd:** Mrs Ann Evans, Sycharth, Bryn Eglwys (Ffôn 872400)

TEYRNGED: Ym marwolaeth Mr Orwig Charles Roberts, Elidir View, Llanrug, collodd Eglwys y Santes Helen un o'i haelodau ffyddlonaf. Er iddo gael ei eni yn y Wladfa fe'i maged yn y Ship ger Pontrhythallt. Treuliodd ei holl fywyd yn yr ardal a mynychodd gynteddoedd yr eglwys ar hyd ei oes.

Gweithiodd y rhan fwyaf o'i oes yn Chwarel Dinorwig ac yna yn Ferodo nes iddo golli ei iechyd. Bu'n aelod o gôr Caernarfon a Chôr Ferodo.

Bonheddig a hynaws ei ymarweddiad, roedd Mr Roberts yn malio am bopeth, a'i dri chôr pennaf oedd ei deulu, ei Eglwys a'i ardal.

Fel "Uncle Orwig" mae cenedlaethau o blant Penisarwaun yn ei adnabod, hynny yn bennaf am ei waith diffuant yn yr Ysgol Sul. Roedd bob amser yn gosod yr esiampl orau bosibl er mwyn rhoi i'r plant y sylfeini cadarnaf.

Bu'n organydd yr Eglwys am flynyddoedd ac yn arweinydd y Gân. Rhyfedd meddwl am wasanaethau yn yr Eglwys heb glywed sŵn ei lais na'i dinc ar yr organ. Bu hefyd yn Warden, yn drysorydd ac yn aelod gweithgar o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig a gweithiodd yn ddistaw a diflino yn casglu'r 'pres tramping' o Sul i Sul.

Dangosodd ddiddordeb hefyd yn ei ardal a bu'n ysgrifennydd hen Eisteddfod y Glasgoed am ddeunaw mlynedd.

Dair blynedd yn ôl cafodd y fraint o ddychwelyd i Batagonia i gyfarfod â'i deulu.

Claddwyd ei weddillion ym mynwent St Helen's ddydd Sadwrn Rhagfyr 1af, a chynhaliwyd gwasanaeth er cof amdano y Sul canlynol. Mawr yw y golled ar ei ôl, a gwag fydd ei le yn St Helen's ac hefyd yn ei gartref. Cydymdeimlwn yn ddwyn â Mrs Jennie Roberts ei weddw, a fu mor ofalus ohono ar hyd y blynyddoedd. Huned mewn hedd.

CLWB YR HEULWEN: Fe ymunodd Clwb y Merched gyda Chlwb yr Heulwen yng Ngwesty Gwynedd Llanberis am eu cinio Nadolig nos Fawrth, Rhagfyr 4. Diolch i'r gwragedd ifainc a aeth o amgylch i werthu raffl ac i'r pentref am eu cefnogaeth.

Dyma enwau'r enillwyr:

1. Mr G.R. Williams, Llys Myfyr, 2. Mr John Ragdale, Bryn Eglwys, 3. Aled Humphries, Tryfan, Bontnewydd, 4. Miss Mair Ffoulkes, 3 Bryn Hyfryd.

Dymunwn wellhad buan i Mr David M. Hughes, Bod Awen, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLWN: â theulu Commercial House yn eu profedigaeth o golli nith yn frawychus o sydyn. Roedd y ddiweddar Mrs V. Roberts yn dod o'r Felinheli. Hefyd mae Mrs E.J. Williams, 2 Bryntirion wedi colli perthynas agos. Cydymdeimlwn â hithau hefyd.

Croesawn Mrs B. Evans i'n mysg. Mae hi wedi dod i fyw i rif 11 Llys y Gwynt.

Mae Mrs M. Jones, rhif 5 Llys y Gwynt, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl chyfeillion. Diolch hefyd am y caredigrwydd a dderbyniodd gydol y flwyddyn a aeth heibio.

EGLWYS SANTES HELEN:

**Gwasanaethau Nadolig:** Dydd Sul, Rhagfyr 23, pedwerydd Sul Adfent:

**10:45 a.m. Cymun Bendigaid**

**3:30 p.m. Gwasanaeth y Cristingl.**

Croeso cynnes i bawb.

**Noswyl y Nadolig, Rhagfyr 24. Cymun Bendigaid: 11.30 p.m.**

Dydd Sadwrn, Tachwedd 24 ymunwyd mewn glân briodas yn Eglwys St Maelog, Llanfaelog, Sir Fôn, Miss Karen Mitchelmore, Arfryn, Tŷ Croes â Kenneth Wyn Williams, Llwyn Derw. Roedd y wledd briodas yng Ngwesty Glantraeth. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau.



**Llongyfarchwn** Miss Heather Jones, Gors, Brynrefail ar gyrraedd ei 18 oed y mis hwn.

**Apêl Wardeiniaid:** Mae wardeiniaid Eglwys Santes Helen yn gofyn os gwelwch yn dda a wnaiff y rhai hynny sydd yn dymuno gorffen eu cyfraniad i'r gronfa ariannol wneud hynny cyn y Nadolig er mwyn hwyluso gwaith y wardeiniaid.

CLWB CANT: Erbyn hyn y mae ychydig dros gant ac ugain o bobl Penisarwaun a'r tu allan wedi ymuno â Chlwb Cant Penisarwaun. Y mae'r trysoryddion, Mr Hugh Williams, a Mr L. Larsen yn diolch i bawb sydd wedi ymuno a hefyd i'r casglwyr, sef Mrs A. Paterson, Mr T. Elliott, Mrs A. Evans, Mr Douglas Jones, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Helen Owen, Mrs Elen Lewis, am eu brwdfrydedd.

Ym mis Ionawr ac yn fisol wedyn byddwn yn tynnu tri rhif i benderfynu yr enillwyr.

FFARWEL A CHROESO: A ninnau ar ddiwedd blwyddyn arall dyma'r adeg i ffarwelio yn swyddogol â'n Gohebydd pentref Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt. Mae'r Eco'n ddyledus iawn iddi am ei llafur dros gyfnod hir, a'm dymuniad innau, fel Golygydd Newyddion, yw diolch yn fawr iawn iddi.

Yr un pryd mae'n bleser gennyf gyhoeddi mai Mrs Ann Evans, Sycharth, Bryn Eglwys fydd gohebydd nesaf yr Eco yn dechrau gyda'r rhifyn nesaf. Diolch yn fawr i Ann am gytuno i ysgwyddo baich y swydd o Ohebydd.

YN EISIAU: Prif-ddosbarthwyr newydd i fod yn gyfrifol am drefnu gwerthiant yr Eco ym Mhenisarwaun yn lle Helen a Dafydd Owen o ddechrau'r flwyddyn newydd. Cysylltwch ag Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (ffôn Caernarfon 5510) neu â Tony Elliott.

LLONGYFARCHIADAU i Ian Jones, Penisarwaen ar ennill 'Award of Merit' mewn cwrs Achub Bywyd ym Mhwll Nofio Bangor. Mae eisoes yn nofiwr da iawn, ac wedi nofio dros Gymru.

## RHODDION

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael:**

**£5:** Mr E.J. Owen, Falmouth, Cernyw, Evan J. Jones, Llanberis

**£3:** Teulu Bwlch Gwynt, Dinorwig

**£2:** Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mrs J. Roberts, Pentre Helen, Deiniolen; Mrs R. Lewis, 1 Tai Marian, Deiniolen; Mrs E. Morris, 7 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

# BRYNREFAIL

**Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)**

GWASANAETH NADOLIG: Brynhawn Sul, Rhagfyr 9 daeth cynulliad teilwng ynghyd o aelodau Eglwys MC Brynrefail ynghyd i wasanaeth Nadolig plant ac ieuenctid yr Eglwys. Roedd y trefniadau dan ofal athrawon yr Ysgol Sul, Mrs Mair Davies, Mrs Carol Houston, Miss Lowri P. Roberts a Miss Annie M. Williams ac arweiniwyd yn y gwasanaeth gan y gweinidog, y Parch John Morris. Cafwyd darlleniadau ar thema Gŵyl y Geni gan Meinir Wyn Jones, Einir a Catrin Gwyn, Eira Wyn a Meira Evans, Nerys Williams, Dewi Evans, Glenda Walters ac Eluned Roberts. Cyflwynwyd adroddiadau gan Einir Gwyn a John Evans ac Owain Gwyn ac offrymwyd y gweddïau gan Joanne Evans, Caron Jones ac Alwen Jones. Ymhlith y cyfraniadau ar gân canwyd carolau gan barti'r plant ieuengaf a pharti'r ieuenctid, deuawdau gan Alwen a Caron Jones, Marian Jones a Nicola Houston ac unawd gan Catrin Gwyn. Ar derfyn y gwasanaeth anerchwyd y plant gan y gweinidog, a chafwyd gair o werthfawrogiad gan y llywydd, Mr Elfed Roberts. Cyfeiliwyd gan Miss Lowri P. Roberts.

LLONGYFARCH: Ein dymuniad fel pentrefwyr yw llongyfarch Mr Dafydd G. Ellis, Gweledfa (gohebydd newyddion Brynrefail) ar ei ddyrchafiad yn ei alwedigaeth. Fel Uwch-swyddog Prawf, bydd Mr Ellis yn gweinyddu o'r swyddfa ym Mangor. (Hoffwn bwysleisio mai gan bentrefwyr y daeth y newyddion uchod, ac nid gan Dafydd ei hun!) Llongyfarchiadau iddo ar ran yr Eco hefyd – Golygydd)

DATHLU PEN-BLWYDD: Estynnwn ein llongyfarchiadau i Heather Wyn Jones, Gors, ar ddathlu ohoni ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Ragfyr 12. Ein dymuniadau gorau iddi a phob llwyddiant yn ei chwrs fel gweinyddes yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

FFAIR NADOLIG CLWB IEUENCTID: Ar nos Iau, Rhagfyr 6 cynhaliwyd Ffair flynyddol y Clwb Ieuenctid. Cafwyd ein ffair mwyaf llwyddiannus eto. Gwnaethpwyd elw o £78.86 i Gronfa'r Clwb. Hoffwn ddiolch o galon i'r ieuenctid a'r oedolion hynny a weithiodd mor galed ac a roddodd mor hael i sicrhau llwyddiant y noson.

Rhestr o'r enillwyr:

Raffl: 1. Basged ffrwythau: Llwyn Helyg, Brynrefail, 2. Potel sieri: Gareth Davies, Brynrefail; 3. Bocs Quality Street: Hughes, 12 Tremeilian Brynrefail; 4. Dau fwg: Carol, Isfryn, Brynrefail. Pys mewn pot: Enillydd: Andrew Roberts (Bocs o 'Roses'). Enwi'r Tedi Mawr: Enillydd oedd Dafydd Jones. Bidio am y gacen Nadolig: Mrs McCafferty.

Diolch yn fawr, Harri Jones (Arweinydd)



*Gwasanaeth Nadolig plant a phobl ifanc Brynrefail — llun gan y Parch John Morris.*



*Awr ddistaw noddedig er budd Cronfa Ethiopia gan ferched Brynrefail. Y llun gan y Parch John Morris.*

## GOFALAETH CAPEL MAWR LLANRUG A'R CYLCH

**Yn ystod y mis diwethaf gwnaeth gofalaeth Capel Mawr a'r Cylch ymdrech arbennig i godi arian tuag at yr angen mawr sydd yn Ethiopia. Gwnaethpwyd casgliad ymhlith yr aelodau, cynhaliwyd taith gerdded noddedig gan yr ieuenctid ynghyd ag awr ddistaw noddedig gan ferched Brynrefail. Yn ogystal cafwyd rhoddion gan Gymdeithas Chwiorydd Capel Mawr a Chymdeithas Chwiorydd Pontrhythallt.**

**Y mae'r arian a gasglwyd fel â ganlyn:**

| | £ |
|---|---|
| Capel Mawr | 438.56 |
| Cymd. y Chwiorydd | 50.00 |
| Tan-y-coed | 100.00 |
| Ceunant | 57.00 |
| Brynrefail | 301.15 |
| Pontrhythallt | 78.30 |
| Cymd. y Chwiorydd | 75.00 |
| Taith Gerdded | |
| Noddedig yr Ieuenctid | 170.18 |
| **Cyfanswm** | **£1,270.19** |

Dymuna'r Parch John Morris, ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mor hael i'r achos teilwng hwn.



CYFARCHION
NADOLIG
O LANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

**Da B JONES**

SNOWDON STORES
PONTRHYTHALLT
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4472

PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll oddi wrth

***R.Hughes Jones a'r Mab***

**SIOP GIG**
BRYN AFON
**LLANRUG**



*Ffôn: Caernarfon 3188 a 5190*

**Arbenigwyr ar gig i'r rhewgell**



*CYFARCHION Y TYMOR*
*A*
*DYMUNIADAU GORAU*
*oddi wrth*
*NEIL, IRIS, MARGARET AC OLWEN*

**y Siop Sglodion**
**Pontrhythallt**
**Llanrug**

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

DYMUNA
**WIL a MYRA PRITCHARD**

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
(Ffôn: 870022)

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL







**YN 1985**
**beth am**
***PEUGEOT 205***

**Y car mawr tu mewn,**
**Bach tu allan**

**oddi wrth**

**JOHN TREVOR**




**GAREJ HAFOD**
**LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 3372**

NADOLIG
LLAWEN
A
BLWYDDYN
NEWYDD
DDA
BAWB



# Dymuna holl Staff

COFIWCH FOD YMA BRESANT NADOLIG I BAWB – Dillad Dynion, Merched a Phlant, Teganau, Slipars, Blancedi, Llyfrau, Carpedi, Bwydydd a Diodydd



# Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2937

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd

COFIWCH HEFYD – DIFIDEND o 5c YN Y BUNT I AELODAU'R GYMDEITHAS

FE'CH SICRHAWN CHI Y CEWCH EIN GWASANAETH SIRIOL A'R BARGEINION ARFEROL TRWY GYDOL 1985

## Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

J.H. a H. JORDAN & SON

# SNOWDON GARAGE LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 3056




Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth bawb yn y garej. Gobeithio y cawn eich cefnogaeth eto ym 1985

**Gwerthu ceir newydd ac ail-law**
**Trin cyrff – Sythu Chasis – Spreio – Unrhyw Waith Mecanyddol – Atgyweirio – MOT – Gwasanaeth Torri Lawr 24 awr**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**TONY, BERYL a STAFF**



**Tafarn**

# PENBONT LLANRUG



Fe rown ichi ein croeso arferol trwy gydol 1985

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

**SIOP DRIN GWALLT**

# Elaine Williams

Ffordd yr Orsaf
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2023**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

# G JORDAN

**CEFN ELAN**
**LLANRUG**
**Ffôn Caernarfon 3581**

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth
deulu

**SIOP a MODURDY**
**GROESLON MARC**
**LLAN** (fihangel-yn-y-g) **RUG**

Ffôn: CAERNARFON 2445

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Lwyddiannus
i bawb oddi wrth

**ELWYN HUGHES**
**CONTRACTOR**
**PENNANT**
**LLANRUG**

**Ffôn: CAERNARFON 2156**

---

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

**M. ROWLANDS**
**MONUMENTAL MASONS**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2898**

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

---

**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**



**Gwesty'r Foelas**
(Richard a Meirwen Thomas)
**Llanrug**
*Ffôn: CAERNARFON 4652*

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**

---

**Simneau glân am bris rhesymol gan**

**G. LLOYD**
**4 PLAS TIRION TERRACE**
**LLANRUG**
Cyfarchion y tymor i chwi oll

*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*
*Ffôn: Caernarfon 4781*

---

**EMYR JONES**
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
**44 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**Caernarfon.**
**3513**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**

---

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**NORMAN JONES**
**4 Tai Disgwylfa**
**LLANRUG**
**Ffôn:**
**CAERNARFON 3476**
**GLANHAWR FFENESTRI**
* Siopau * Tai *
* Swyddfeydd *
Gwestai * Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio – tu fewn a thu allan

---

**Mae**
**David, Gill a Staff**
**TAFARN**
**GLYNTWROG**
**LLANRUG**

yn diolch yn fawr i bawb a'u cefnogodd trwy gydol y flwyddyn ac yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)**

APÊL ETHIOPIA: Yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr fe aeth Tammi Jones, Gareth Jones, Iola Non Thomas, Lois Pritchard, Alan Pugh, Iolo Eilian, Alan Jordan, Delyth Jones a Rhys Llwyd, o gwmpas y pentref yn canu carolau Nadolig. Casglwyd £22.00 tuag at Apêl Ethippia'r 'Daily Mirror'.

APÊL ETHIOPIA: Dymuna Oxfam ddiolch i'r pentrefwyr am eu haelioni. Casglwyd £44.06 mewn tuniau fel â ganlyn: Co-op: £13.61; Post: £7.22; Glyntwrog: £7.51; Snowdon Stores: £11.87; Penbont: £3.85.

Y SEINDORF: Ar ddydd Sadwrn, Hydref 27 yr oedd y Seindorf ym Mhrestatyn yn rownd derfynol Pencampwriaeth Pontins. Daethant yn bedwerydd allan o 16 gyda 181 o bwyntiau.

Ymhen mis yr oeddynt yn cystadlu eto yng Nghei Connah ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru. Buont yn cystadlu mewn dwy adran sef A a B gan ddod yn ail yn adran A gyda 179 pwynt ac adran B gyda 176 pwynt.

CYFARCHION NADOLIG: Dymuna Mrs Williams a Miss Parry, 14 Hafan Elan, Nadolig Llawen i bawb.

GWELLHAD BUAN: Dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs L. Jones, 15 Hafan Elan sydd yn Ysbyty Gwynedd.

IEUENCTID: Cynhaliwyd cyfarfodydd ar y thema 'Anabledd' fel rhan o weithgareddau ieuenctid gofalaeth Capel Mawr a'r cylch. Ar nos Sadwrn, Rhagfyr 1 aeth ugain o'r bobl ifainc gyda'r gweinidog, y Parch John Morris, i weld y ffilm 'Joni' – ffilm am ferch anabl a oedd yn cael ei dangos yng Nghaernarfon.

Roedd y gwasanaeth bore Sul yn y Capel Mawr ar Ragfyr 2 yng ngofal yr ieuenctid. Thema'r cyfarfod hwn oedd yr 'Anabl'. Cymerwyd rhan gan: Linda Morris, Wendy Jones, Einir Parri, Carys Lewis, Jean Roberts, Berwyn Owen, John Eilian, Kevin Lewis a Nigel Thomas. Fel clo i'r gweithgaredd pregethodd y gweinidog yn oedfa'r nos ar 'Iachau'r cloff y tu allan i'r deml'.





**UCHOD:** *Taith Gerdded Noddedig y Bobl Ifanc tuag at Apêl Ethiopia.*
**ISOD:** *Gwasanaeth Ieuenctid ar y thema 'Anabledd'. Lluniau: Y Parch John Morris.*


**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**
BERYL a GWEN
**LLYTHYRDY LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2422**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
**RHIANNON MORRIS**
**a holl staff**
**BWSIAU ARFON LLANRUG**



Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
**JOHN a ROBERTA GRIFFITH**
**STORFA Mace**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2790**
Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd
Archebion at eich drws. Ffilmiau fideo £1 y noson
**Diolch i bawb am ein cefnogi yn ystod ein blwyddyn gyntaf yn y Sgwâr**

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**
**oddi wrth**
**Linda**
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug



Ffoniwch
**CAERNARFON 3674**
i fod ar eich dela dros yr Ŵyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
***W.J.GRIFFITH***
**PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG**
**PANT TIRION, LLANRUG**
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL SYSTEMAU GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*

**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**
**GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF**
**ATGYWEIRIO TAI GWAIR**
**E. PUGH**
**WELDING & FABRICATING**
32 GLANFFYNNON
**LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 5394
*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

Dysgwch yrru'r car gydag
**Y.Y.O.**
**YSGOL YRRU OFALUS**
* Gwasanaeth 7 diwnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol

**D L**
**PRITCHARD**
**43 glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

CINIO NADOLIG: Daeth tua 140 o bensiynwyr i'r Ysgol Gynradd nos Fawrth, Rhagfyr 4 i fwynhau cinio Nadolig yn rhoddedig gan yy Pwyllgor Carnifal. Cafwyd cinio gwerth chweil wedi ei goginio gan Mrs L. Horman a staff gegin yr Ysgol Gynradd.

YSGOL GYNRADD: Yn dilyn y wledd fe gafwyd adloniant gan Gwmni Dinorwig yn perfformio 'Perthyn Pell', Band Ieuenctid Llanrug gyda Mr Frank Boylin, Miss Ffion Williams a Mrs Beti Rowlands yn canu, gyda Mrs Mair Huws wrth y piano. Yn cadw trefn roedd y Parch Aled Jones Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs J. Owen, Llys Eiddon a Mrs Nell Hughes, 24 Hafan Elan. Rhoddwyd yr arian tuag at barti Nadolig plant yr ysgol. Diolchwyd i'r artistiaid gan Gareth Williams, cadeirydd Pwyllgor Carnifal ac hefyd i'r canlynol am eu cyfraniad tuag at wneud y noson mor llwyddiannus: Mrs L. Horman a staff y gegin, gofalwr a staff yr Ysgol Gynradd, staff y gegin Ysgol Brynrefail, Ysgol Bryn Eryr, Mr J.T. Jones, Greuor Farm, Mr a Mrs Stokes, Arvonia Coaches, Tomi Roberts, Pen Bont, Y Co-op Llanrug, Mrs Beryl Thomas a'r Parch John Morris. Fe anfonwyd dymuniadau da i Mr Derfel Gruffydd y prifathro, sydd yn wael ei iechyd. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll – Pwyllgor Carnifal Llanrug.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Lun, Rhagfyr 3 gyda Mr W.A. Jones, Y Dalar Deg yn llywyddu, mwynhawyd cwmni Mr Gareth Lloyd Williams, Y Groeslon yn sôn am ei waith ym myd Radio a Theledu. Diolchwyd i Mr Williams gan y Parch W.O. Roberts.

GWELLHAD BUAN: Cafodd Mrs Ena Jones, Bod Ivor driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Dymunwn wellhad buan iddi.

## O GINIO NADOLIG LLANRUG



*Y gynulleidfa yn setlo'n barod am gyngerdd, yn dilyn y wledd.*



*Seindorf Ieuenctid Llanrug dan eu harweinydd, Mr Boylin yn cynnal cyngerdd yng Nghinio Pensiynwyr Llanrug.*

## FANDALIAETH LLANRUG

Apeliwyd yn daer am gymorth gan y cyhoedd yng nghyfarfod diweddar Cyngor Cymuned Llanrug i geisio datrys y broblem o fandaliaeth a ysgubodd y pentref yn ddiweddar.

Adroddwyd gan y Clerc fod y rhan fwyaf o'r bwrs niau sbwriel wedi eu malurio yn Llanrug a bod y gysgodfan bwrs newydd a godwyd yn un o ddau gysgodfan oedd wedi'i fandaleiddio. Amcangyfrifwyd byddai'r gost o adnewyddu'r buniau ymhell dros £100 a dros £200 i drwsio'r cysgodfannau. Penderfynodd y Cyngor beidio ail-osod buniau newydd oherwydd y gost ond y byddent yn trwsio'r cysgodfannau am y tro olaf. Gwnaed apêl am gymorth y cyhoedd i ddwyn o flaen eu gwell y rhai oedd yn gyfrifol am y difrol diweddaraf. Teimlwyd yn gryf fod rhywun yn rhywle wedi gweld rhywbeth, ac erfynwyd arnynt i hysbysu'r Clarc neu'r plismon lleol o unrhyw wybodaeth. Pwysleisiwyd gan y Clarc mai arian y trethdalwyr lleol sy'n cael ei wastraffu i adnewyddu llanastr y fandaliaid ac na fyddai'r Cyngor yn ymgymryd â darparu cysgodfannau bws, buniau na seddau cyhoeddus os byddai'r malurio di-angen yma yn parhau.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr yn y Festri nos Iau Tachwedd 29, dan lywyddiaeth y Parch W.O. Roberts, Manod. Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni'r Parch H.J. Hughes, Porthaethwy gyda sgwrs a sleidiau ar y testun 'Cynefin'.

Y gwestwragedd oedd Mrs J.M. Jones, Ger y Ffynnon, Stâd Tal-y-bont, Mrs L.A. Horman, Venice, Mrs D. Jones, Tegerin, Stâd Tal-y-bont a Mrs B. Hughes, 1 Gorffwysfa. Diolchwyd gan Mrs I. Butler, Haddef, Tan-y-coed ac eiliwyd gan Mrs M. Roberts, 2 Tai Plastirion.

CLWB PÊL-DROED: Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus dros ben yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Tachwedd 28. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ym mhob ffordd.

Enillwyr y raffl oedd: 1. Cig Eidion: Wil Pritchard; 2. Cracer Nadolig: Mrs Gwyneth Williams; 3. Potel Sieri: Keith Williams; 4. Dresel: Mrs Ceri Jones. Nifer o ddimeuau mewn potel: Mrs Morfudd Roberts (potel o win).

DIOLCH – i Mr Stanley Roberts (Eryri gynt) am ei rodd arferol tuag at de parti Nadolig plant y Capel Mawr.



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll**

## GWASANAETH NADOLIG

**Dalier sylw – cynhelir gwasanaeth carolau undebol yng Nghapel Mawr Llanrug am 5.30 (nid 7.30) nos Sul Rhagfyr 23. Croeso i bawb.**




Brysiwch!
Archebwch eich
**TWRCI NADOLIG**
a'ch
**CYW IÂR**
a PHOB MATH O GIGOEDD ERAILL

YN AWR
gan
**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**

PEN CIGYDD Y FRO!

Mynnwch y gorau a dewch atom ni!



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**

**AR AGOR** 9-7pm
9-5pm Sadwrn
**AR GAU** SUL, MERCHER.

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)





**GWLÂU SENGL O £39 I FYNY**
**GWLÂU DWBL O £75 I FYNY**
**DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800**
**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**
**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**



Mae Trefnydd Hysbysebion Eco'r Wyddfa yn chwilio am rhywun i'w helpu gyda'r gwaith o gasglu hysbysebion. Cyfle rhagorol helpu'r papur bro, dod i adnabod gŵyr busnes y cylch a dysgu'r grefft o werthu.

**Cysyllter â John Roberts, Trefnydd Hysbysebion Eco'r Wyddfa, Bedw Gwynion, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 5605**

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

**Plant yr ysgol i ofalu am y Griafolen:**
Daeth cynrychiolydd o'r adran gynllunio Cyngor Sir Gwynedd, Mr John Wyn Williams, â choeden i'r ysgol ddydd Gwener.

Roedd Ysgol Brynrefail yn un o chwe ysgol yng Ngwynedd i dderbyn Criafolen, fel rhodd y Comisiwn Cefn Gwlad.

Derbyniwyd y goeden gan gapten yr ysgol, Peter Sharpe, a disgyblion y drydedd flwyddyn a fydd yn gyfrifol amdani.

**Cerdd:**
Ar Ragfyr y cyntaf yn Neuadd y Brifysgol, Bangor bu Côr Merched yr Ysgol yn canu mewn perfformiad o Hodie gan Vaughan Williams gyda Cherddorfa Symffoni Gogledd Cymru a chantorion Monteverdi.

Nos Wener, Rhagfyr 7, bu'r genethod yn cynnal cyngerdd i godi arian ar gyfer Uned Ymchwil Arennol Cymru.

**Y Gymdeithas Wyddonol:**
Cafwyd dau gyfarfod o'r gymdeithas newydd hon yn ystod y tymor. Bu Mr Osborne Jones, Cwmni ADC Caernarfon yn sôn am ddatblygu offer ar gyfer labordai meddygol. Cawsom weld un o'i beiriannau yn gweithio. Croesawyd Mr Jones gan Mr Dilwyn Roberts a diolchwyd iddo gan Peter Sharpe. Yn yr ail gyfarfod roedd y Dr Llŷr Gruffydd, Oriel Eryri yn trafod 'Cylchoedd Biolegol'. Fe'i croesawyd gan Mr J.E. Morris a diolchwyd gan Gwyn Morris. Ysgrifenyddion y gymdeithas yw Dewi Lewis a Louise Bernard. Dirgelwch i ni ar hyn o bryd yw prinder cefnogaeth o'r bedwaredd flwyddyn – gobeithio y gwelir mwy ohonynt y tymor nesaf.

**Ymryson Siarad Cyhoeddus:**
Ddechrau Rhagfyr cafwyd Ymryson Siarad Cyhoeddus Iwyddiannus yn yr ysgol rhwng Ysgolion Dyffryn Nantlle, Syr Hugh Owen, Tryfan, David Hughes a Brynrefail. Y Siop Siarad oedd yn trefnu'R YMRYSON. Croesawyd pawb gan Lynne Jones a Chadeirydd yr Ymryson oedd Manon Williams. Roedd dau destun gerbron. Siaradodd Ysgol Brynrefail a gynrychiolwyd gan Dafydd Meredydd a Bethan Jones ac Ysgol Tryfan ar y testun 'Cymru ddi-asgwrn cefn yw Cymru ddi-niwclear'. Testun Ysgol Dyffryn Nantlle, Syr Hugh Owen a David Hughes oedd 'Ai ein cyfrifoldeb ni yw bwydo'r newynog?'

Llongyfarchiadau calonnog i Syr Hugh Owen ar ennill y gystadleuaeth. Rhoddwyd tarian hardd i'w chadw am flwyddyn gan Mr Meirion Wyn Jones, Dirprwy-brifathro Ysgol Brynrefail i'r tîm buddugol – Helen o Ysgol Syr Huw Owen a enillodd wobr y siaradwr gorau hefyd. Cyflwynwyd tarian iddi gan Mr Alwyn Pleming. Einir Parri a gynigiodd diolchiadau ac fe'i hategwyd gan Delyth Huws. Gan i ni gael cystadleuaeth Iwyddiannus eleni, byddwn yn cynnal cystadleuaeth areithio flynyddol o hyn ymlaen.

Diolch yn fawr iawn i'r genod am baratoi Iluniaeth. Cafwyd cacennau blasus eto gan Bethan Parri. Bydd rhaid i ni ei phenodi fel Prif Drefnydd Te y Siop Siarad!

**Nofio:**
Yn ystod y mis diwethaf bu tîm nofio'r ysgol mewn gŵyl nofio yn erbyn ysgolion uwchradd Arfon. Cafwyd perfformiadau arbennig yn y pwll yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon gan Aled Jones (nofio dull broga) 1af dan 13; Arwel Jones (nofio ar y cefn) 1af dan 13; Iestyn Jones (nofio dull rhydd) 1af dan 18; Mathew Shaw (nofio dull broga) 1af dan 18.

**PÊL-DROED:**
**Cwpan Ivor Tuck (Bechgyn hŷn)**
**Ysgol Brynrefail 2, Ysgol David Hughes 1**
Roedd y gwynt cryf yn ei gwneud hi'n anodd i chwarae pêldroed da. Er hynny cafwyd gêm gystadleuol dros ben a'r ddau dîm yn Ilwyddo i feistroli'r bêl fywiog yn arbennig o dda ar y cyfan. Tra'n chwarae hefo'r gwynt cryf fe aeth Ysgol David Hughes un gôl ar y blaen yn yr hanner cyntaf. Roedd gôl-geidwad yr ysgol, Michael Roberts (Cwm-y-glo) yn amlwg iawn yn yr hanner yma. Rhoddodd berfformiad gwych rhwng y pysg i gadw mantais y bechgyn o Borthaethwy i un gôl.

Gyda'r gwynt wrth eu cefnau yn yr ail hanner fe aeth yr ysgol yn gyfartal pan drodd un o gefnwyr David Hughes y bêl i mewn i'w gôl ei hun o gic allan hir gan Michael Roberts. Ni ddaeth y gôl holl bwysig i ennill y gêm tan ychydig funudau o'r diwedd pan daniodd Steven Owen (Cwm-y-glo) ergyd greg i gornel y rhwyd o du allan y cwrt cosb ar ôl symudiad i lawr y chwith.

Mae'r bechgyn yn awr wedi cyrraedd rownd derfynol adran Gwynedd o'r gwpan. Eu gwrthwynebwyr rhyw dro cyn diwedd y tymor fydd Ysgol Eifionydd Porthmadog.

Dewiswyd Steven Owen a Gwyn Morris i chwarae i dîm ysgolion dan 18 oed Gogledd Cymru yn erbyn Swydd Amwythig. Curo wnaeth y bechgyn 3-0 a Gwyn Morris yn sgorio un o'r goliau. Bellach mae Steven Owen wedi ei ddewis ymysg ugain o fechgyn o Gymru gyfan sy'n cael eu hystyried ar gyfer tîm cenedlaethol i fynychu clwb hyfforddi yn y Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd am dri diwrnod.

Roedd Stuart Williams (Llanrug) yn aelod o garfan pêl-droed Ysgolion Gogledd Cymru dan 15 oed a chwaraeodd yn y Rhyl yn erbyn bechgyn Lerpwl ar Ragfyr 10. Cyfartal oedd y sgôr 1-1.

## AR Y TELEDU



*Bu cwmni cynhyrchu Minafon ar gyfer S4C o amgylch ysgolion y fro yn ddiweddar i ddewis plant at olygfa mewn rhaglen i'w darlledu ddechrau'r flwyddyn newydd. Dyma lun dau o blant yr ardal — Tudur Lloyd Roberts, Llwyncoed Bach, Brynrefail a Dafydd Roberts o Lanrug gyda'r actor enwog, Dafydd Hywel.*

## YMDDIHEURIAD

Gwir ddrwg gennym na chydnabuwyd y rhoddion hyn i'r Eco yn gynt:
**£4:** Irfon ac Ann Thomas, Buarthau, Llanrug
**£1.50:** Di-enw, Ffordd yr Orsaf.
Diolch yn fawr i chwi am eich haelioni.

## TÎM NOFIO YSGOL BRYNREFAIL



# HEN GYMERIADAU

Mae plant pob oes yn cyfarfod rhywun maent yn ei hoffi, neu ei ofni, yn ystod ei fynd a dwad – yr ofn yn fwy pan ei hunan ar ffordd unig. Gwnâi plant eraill straeon fod Jack Lantar, neu ddyn wedi drysu yn y gymdogaeth, i godi dychryn. Felly gwell oedd cuddio os oedd siawns pan welech rhywun dieithr yn dod i'ch cyfarfod, ond gwyddem pwy oedd rhai ohonynt.

Wmffra Giatws oedd un. Ni wn pwy oedd yn iawn, ond yr oedd yn byw tua Pen Bwlch. Unwaith y deuthum wyneb yn wyneb ag ef ger camfa Maes Toso – dyma'r maes y deuai llanciau Clwt y Bont i chwarae Toso – rhyw fath o Quoitio, ar y Sul cyn y Diwygiad. Gwisgai Wmffra gôt gynffon fain a het galed oedd wedi mynd yn wyrdd gan henaint. O bob un o'i bocedi sticiai allan botel gwrw, a'i gwnâi i edrych fel llong ryfel a gynnau mawr arni, ond nid oedd mewn gwirionedd yn ddyn i'w ofni. Oes rhywun yn ei gofio?

Codai Mari Brynrodyn ofn arnom hefyd, gan y byddai'n flêr, ac yn siarad â hi ei hun ac yn llusgo sachaid o briciau tân ar ei hôl. Yn y teras yr oedd yn byw, a'r stori ar droed oedd fod ganddi lond hosan o sofrenni, a synnwn i ddim nad oedd y stori yn wir. Cymeriad hoffus iawn oedd Owen Roberts, Siambar Glòs. Gallem ofyn cymwynas ganddo unrhyw amser, ond cefais fraw ofnadwy un noson wrth fynd adre. Wedi pasio Sglefr Bach clywais lais yn llefaru'n uchel. Cymerodd ychydig funudau i mi ei adnabod. Owen Roberts oedd yn areithio ar uchaf ei lef, ac yn dyrnu'r awyr, yn fwy huawdl na Lloyd George ei hun. Ni wn a oedd yn ŵr cyhoeddus yn y Capel Wesla, ond meddai y ddawn, gallaf dystio hynny.

Dyna falch fyddem o gyfarfod Mrs Williams a Miss Parry, Tyddyn Du. Safent i siarad â ni yn ddifyr iawn, a phob amser cawsem ddimai yr un ganddynt. Daeth brawd Miss Parry i fyw atynt wedi bod am gyfnod ar y môr. Difyr oedd ei hanesion yntau, ac ymunai â ni i chwarae cicio pêl neu luchio cerrig at ryw dun a roddid yn darget.

Dic Dafis oedd gymeriad syml, hoffus iawn. Fel y crybwyllais o'r blaen, gweithio i Mr Tom Jones (Tom Siop) oedd. Siaradai ag ef ei hun, ac â'i geffyl yn ddi-stop. Yr oeddynt yn deall ei gilydd i'r dim. Cariai siwgr lwmp yn ei boced i'w roi i'r ceffyl pan oedd yn sefyll i ddadlwytho, ond os oeddwn i yn gorfod dal pen y ceffyl, a'i gadw'n ddiddig gyda'r siwgr lwmp, gollwng y siwgr a wnawn bob tro, er i mi ei ddal ar gledr fy llaw yn ôl y cyfarwyddyd, wrth weld dannedd mawr yr hen geffyl. Da fyddai gennyf pan fyddai gan Dic fag ffid i roi dros ei ben iddo gael bwyta. Serch hynny mwynhaem bàs yn y drol at Tyddyn du gystal ag unrhyw ffair.

Wrth fynd heibio'r stabal fin nos, clywech yr un sgwrs. Dic a'i geffyl mewn uniad perffaith.

Mae'n siŵr fod amryw eraill o gwmpas y pryd hynny, ac y dônt yn ôl i'r cof rywbryd neu'i gilydd.


J.M. JONES A'I FAB
GWAITH CERRIG BEDDAU
A THREFNWYR ANGLADDAU
DEINIOLEN
Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

# MYND A DŴAD

### Y Gwalch

**Mae yna amryfal bobl yn mynd i fyny ac i lawr yr allt yma yn eu cerbyda' yn codi eu dwylo arna i. Wn i ar wynab y ddaear pwy ydyn nhw ran fwya; wyrion ella erbyn hyn i rai yr oeddwn i'n gybyddus â nhw amsar maith yn ôl.**

Mae 'na un yn arbennig yn mynnu cael fy sylw, yn canu ei gorn a chwifio ei freichia fel octopys yn arwain côr cymysg. Ond mi wn beth ydy ei ddolur o; awydd cael ei enw yn fy 'wyllys i mae o – ei gweld hi'n hwyrhau. Ac mi wn i hefyd ei fod o yn un o'r rheiny sy'n dal i gredu mai fi gafodd bres Siani'r Efail. Wrth gwrs roedd 'na rai yr adag honno, yn mynnu mynd ymhellach, ac awgrymu fy mod i wedi ei fflatio nhw i gyd mewn bythefnos ar ferched a cheffyla'.

Tori mawr ydy o, a finna erbyn hyn wedi troi at yr Islamiaid, a'r diwrnod o'r blaen pan ddois i'w wynab o, roedd fy matin gweddi gen i yn rowlyn o dan fy nghesail, a dyma fo'n dechra' fy nghymryd yn ysgafn ar ei union, a gofyn pa bryd oedd Mohamed wedi bod acw ddwaetha i de.

Wedyn dyma fo'n dechra rhestru'r bendithion oedd ei blaid o wedi ddwad i mi yn bersonol. "Does dim ond isio i ti edrach ar Groeslon y King," medda fo wrtha i, "beth maen nhw yn neud yn y fan honno er dy fwyn di."

"Gwrandwch," medda fi wrtho fo. "Mi rydw i'n cofio adag pan fasach chi'n medru gorfadd ar ych hyd gyd ar hen lôn King am rhyw hannar awr heb i ddim fynd trostoach chi. A pheth arall – i be mae isio darnio'r holl dir yna yr ochr bella? Fydd pobol y Waen Wnion ddim uwch bawd sawdl. Wela nhw ddim mwy na maen nhw'n weld rŵan. Yr hen dŷ mawr 'na ydy'r mwgwd. Isio rhoi clec i hwnna sy'. Hynna fasa'r feddyginiaeth."

Wn i ddim os oes gyno fo siârs yn y busnas ai peidio, neu ei fod o yn rhyw fath o Fesyn. Mi aeth yn wyllt walia, a phoer mawr o gwmpas ei geg o.

"A pheth arall," medda fi, ar ôl iddo fo gael cyfla i ddwad i lawr o ben ei gatch, "lle mae'r lechan las neis honno oedd yn y wal yn deud fod yna tros ddau gant a hannar o filltiroedd i Lundan?"

Wydda fo ddim a doedd dim gwahaniaeth gynno fo chwaith. I beth oedd isio peth felly?

"Mae gan bobol Bessawaen," medda fi, "gystal hawl â neb i wybod faint o ffordd sy' yna i Lundan."

Doedd gynno fo ddim atebiad i hynny, ond mi lloriodd fi hefo peth arall. "Pwy fasa yn medru darllan ei negas hi heddiw," medda fo. "Mae pawb yn gwibio heibio fel mellt."

A hynny sy' wir. A gwibio yn waeth wnawn nhw fel maen nhw'n gneud ar ôl lledu pob croeslon.

Wedyn, roedd o wedi dwad ato ei hun yn ddigon da i fy ngwahodd i'r car. Un felly ydy o, dipyn bach yn oriog, a dim yn sylweddoli fod fy amsar i yn dynn, ac nad ydy pedair awr ar hugain y dydd ddim hannar digon i mi bellach.

"Mi rydw i'n cofio amsar," medda fi pan ges i gyfla i dorri ar ei draws o, "pan oeddwn i'n mynd hyd y ffyrdd 'ma hefo ceffyl a throl, ac wrth ddwad adra yn gorfadd ar wastad fy nghefn yng ngwaelod y trwmbal yn spio ar y cymyla, a'r gasag yn mynd ei hun, a phan fydda'r drol yn dechra sgytian, roeddwn i'n gwbod mod i wrth Tŷ Gwyn, achos doeddan nhw ddim wedi tario dim pellach na'r fan honno."

"Rwyt ti'n drysu yn y fan yna," medda fo. "Mi roeddan nhw wedi tario i lawr y Waen cyn dy eni di."

Doeddwn i ddim isio ei darfu o wedyn mewn lle mor gyfyng.

"Gwrandwch," medda fi, "mi ddeuda i wrthach chi sut yr ydw i mor siŵr. Roedd 'na doman o gasgenni col tar wrth Drain Duon a rheiny yn llawn. A dyma fi a Robin Êl, wrth ddwad adra o'r ysgol yn tynnu eu cyrc nhw, nes yr oedd y lôn yn un fodda o dar 'run fath â'r Trinidad Lake, ac yr oedd yn rhaid i drigolion y Waen fynd trosodd i gae Tai Croesion i fynd heibio. Mi fuo yno am flynyddoedd, y pwll tar, a phan oedd hi'n boeth, roedd 'na gannoedd o swigod ar ei wynab o, ac mi fyddan ni yn eu clecian nhw hefo pigau drain."

"Ffendiodd rhywun pwy wnaeth?"

"Naddo, ond mi driodd yr hen sgŵl berswadio un neu ddau i gyfadda hefo'i gansan. Mi gafodd rhai eu colbio ar gam am y tar."

"Pwy oeddan nhw felly?"

"Mae hi'n gyfrinach eith hefo fi i'r fynwant. Am ddim wn i ella bod gynnyn nhw ddisgynyddion yn fyw, a rheiny o natur ddialgar."

"Ond mi curist nhw i gyd yn y diwadd."

"Sut felly?"

"Mi gest bres Siani'r Efail," medda fo gan ddwad yn ôl at yr un hen bwnc.

"Mi fuo nes i mi beidio," medda fi. "Beth mae'r rhan fwya o bobol ddim yn wybod ydy, fod 'na amoda."

"Beth oedd rheiny?"

"Mi rydach chi'n cofio yr hen gath fawr frech honno oedd ganddi hi, a llygod mawr wedi byta un glust iddi hi. I honno roedd pob dima yn dwad tra bydda hi, wedyn mi roedd beth bynnag fyddai ar ôl, yn dwad i bwy bynnag oedd wedi edrach ar ei hôl hi – a fi oedd hwnnw. Ond mi fuo acw am flynyddoedd, y sgythan wydyn, doedd 'na ddim siâp marw arni hi 'run fath â chathod cyffredin. Mi rydw i'n siŵr y cafodd yna gryn ddeg o gathod eu lladd hefo motos hyd yr allt 'ma, a phob tro yr oeddwn i'n clywad un yn sgrechian mi fyddwn i'n rhedag allan yn llawn gobaith, ond nid y hi fyddai hi."

"Beth wnest ti?"

"Mi es i iseldra, gweld fy oes i'n mynd a finna wedi gneud gymaint o blania yng nghylch y pres."

"Beth oeddat ti'n fwriadu neud hefo nhw?"

"Cael un ffling iawn cyn mynd."

"Rhoi i fyny wnest ti wedyn?"

"Naci. Roedd hi'n sgut am hela, y gath, ac hyd y caea 'ma bydda hi, ac mi es ar ei hôl hi un noson leuad hefo gwn, ac mi saethis hi'n gelan."

"Ac mi gest dy bres?"

"Naddo. Roedd fy ngolwg i'n dechra mynd yr adag honno. Erbyn gweld cath y gweinidog oedd hi. Ond dyma fi'n penderfynu wedyn nad oedd 'na ddim ond un peth amdani hi. Mi rhois hi mewn bag peilliad rhyw noson dywyll, a charrag hefo hi, a ffling iddi i'r Marddwr Mawr. Diwrnod wedyn dyma fi i lawr at y twrna, i ddeud ei bod hi wedi mynd, ond doedd o ddim yn fodlon i gymryd fy ngair i, heb gael prawf – ac mi es cyn bellad â mynd at y doctor i ofyn iddo fo fasa fo'n gneud papur i mi – ond wnae o ddim. Mi fasa'n ddigon am ei leisans o medda fo. Ond y noson wedyn, pan ddois i adra, dyna lle roedd y gath yn ista o flaen y tân yn molchi'r pwt clust honno oedd ganddi hi.

"Sut felly yn eno'r nef?"

"Wn i ddim yn na wn. Mae'n rhaid fod 'na ormod o wynt yn y bag neu rhwbath, a'i fod o wedi dal ar yr wynab nes y cafodd ei gario gan y lli o dan y bont i'r basddwr. Mi ddaeth ohono fo rhywsut beth bynnag."

"Fedri di neud dim yn iawn dwa?"

"Gwrandwch," medda fi, "cyn i chi ddechra mynd yn sbeitlyd. Mi aeth ar goll o ddifri ymhen rhyw dridia, a welson ni byth mohoni hi."

"Mae'n siŵr dy fod ti wrth ben dy ddigon wedyn?"

"Mi fasach yn meddwl. Ond dyma'r hen dwrna hwnnw yn deud fy mod i wedi gweiddi 'blaidd' unwaith yn ormod, a'i fod o'n ama fy mod i'n trio twyllo'r gyfraith. Beth bynnag, chaf i ddim ceiniog nes y medra i brofi ei bod hi wedi mynd o ddifri."

"Sut medri di neud hynny?" medda fo.

"Run fath â dal llwynog. Mynd â'i chynffon hi iddo fo, dyna pam, rhyngoch chi a fi yr ydw hyd y fan 'na bob awr o'r nos yn trio cael gafal ar rhyw hen gath frech. Ond mae'r siort yna wedi mynd yn dena drybeilig ar wynab daear. Choelia chi ddim."

Ar hynny, beth ddaeth heibio ond andros o lori fawr yn trio stwffio heibio rhyngddan ni â Siop Riwth, ond mi fethodd. Dyma'r boi yn rhoi ei ben allan, ac yr oeddan ni'n gweld ei geg o'n mynd. Rhyw siortyn oedd o fasach chi ddim yn ei gynnyg heb ei neud o yn ddau faich, neu ei adael o yn un bwndal i El Bandito ar nos Ferchar.

"Mae isio rhoi clec i'r hen dŷ yma," medda fo, a spio ar fy nhalcan i.

"Dyna chdi," medda'r Tori, "un arall sy'n rhannu dy ysfa di i chwalu tai. Cofia amdana i yn dy 'wyllys rhag ofn iddyn nhw ei dynnu o am dy ben di."

A ffwrdd â fo.

## CERDDI'R TYMOR

### NADOLIG '84

'Dolig o ragrith
rhuthr a rhaib,
a'r byd sigledig
yn feddw gaib.

Dolig y trimio
a'r gwario ffôl
a'r Farchnad Gyffredin
ar ei thîn ar y dôl.

Dolig y miri
y rhoddi a'r cael
a 'run doethyn yn malio
am y preseb gwael.

Dolig y gwledda
a'r slotian drud
a miloedd mewn angen
ar belen o fyd.

SELWYN GRIFFITH

### CHWARAE 'FO'R BYD

"Plîs, Syr," meddai'r bychan
A'i wyneb yn wên i gyd
"Rydwi wedi gorffen fy syms bob un
Ga i fynd i chwarae fo'r byd?"

Pwy fedrai wrthod
"Cei, dos am ryw chwarter awr,"
"Diolch, Syr," ac i ffwrdd â'r bychan
At y belen fawr.

Fe'i gwyliais yn troi ac yn trin
Y belen heb boen na braw,
Cyfandiroedd a moroedd yn feri go rownd,
Dan reolaeth ei law.

Y diniweitiaf o blant
A'r belen yn mynd â'i fryd
Tra bod doethion daear yn gwneud cythral
o stomp
Wrth chwarae' 'fo'r byd.

SELWYN GRIFFITH

### NADOLIG 1984

Dathlu achlysur pen-blwydd Iesu Grist,
Sydd heddiw yn fater eithriadol o drist,
Dyn ym mhob gwlad yn rhyfela â'i frawd,
A phlant Ethiopia heb fara na blawd.

Gwladgarwyr yn wylo yn cloffi'n ei ffydd,
A'r glowr yn dyheu am weled y dydd,
Pan fydd Magi a'i chriw, a'i gsogordd ar
drai,
Nadolig anesmwyth, – ar bwy mae yy bai?

Amaethwyr yn arllwys y llaeth ar lawr,
A phlant Ethiopia, mewn angen mawr,
Y Trident ar y Comin yn erchyll a hyll,
A milwr America yn barod â'i ddryll.

Pwrpas Nadolig yw croeso a chân,
A lle ar yr aelwyd i'r Ysbryd Glân;
Cofio y Geni mewn preseb yr ych,
Mae'r stori yn hen, ond mae'r neges yn
wych.

JOHN V. MORRIS
Rhianfa.

CREFFT·ELIDIR

STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

**Crefftau llechi**: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill**: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.
**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

**Ar agor 9.30 am - 9.30 pm**

# Y CYSYLLTIAD RHWNG SRI LANKA A LLANBÊR


**gan Haydn Jones**

*Hoffwn drwy gyfrwng 'Yr Eco' ddod ag atgofion melys, rwy'n gobeithio, i rai o hen hogia Bro'r Eco.*

*Ychydig amser yn ôl, treuliais rhyw dri mis yn Sri Lanka ac yn ystod yr amser cefais amser diddorol yn mynd o gwmpas yr ynys i dynnu lluniau, sgwrsio a holi'r trigolion. Daeth yn amlwg i mi fod cysylltiad yno â rhai o hogia' Llanber. Wrth gwrs rwyf yn sôn am y rhai hynny a fu'n ymweld â Ceylon yn ystod yr ail ryfel byd.*

*Fel y daeth i'r amlwg yn ystod un sgwrs, roedd un o Lanberis yn gyfrifol am y cychod ar lyn Kandy. Un arall yno yn gwasanaethu y diweddar Arglwydd Mountbatten yn ei bencadlys yn Kandy. Roedd nifer lawer o fro'r Eco hefyd yn Trincomalic; lle dedwydd iawn heddiw ond yn sicr yn lle cyffrous iawn y dyddiau hynny.*

*Dyma rai lluniau o Kandy, gan obeithio y byddant o fudd yn fy mwriad o ddwyn i gof yr amserau hapus a gafodd yr hogia' yn ystod ei hymweliad â Ceylon.*







*Y llun o'r 'Queens', tybed faint o'r hogia' a âi yno am beintyn a chân? Mae yna hanes diddorol i'r gwn yn y darlun. Cefais sgwrs faith â'r hen ŵr a oedd yn gyfrifol amdano, a'i eglurhad oedd fel â ganlyn:*

*Gwn wedi ei gymryd oddi ar y Japanese gan y 14th Army ydoedd, ac yna wedi ei drosglwyddo i bobl Kandy i gydnabod eu caredigrwydd tuag at y milwyr tra roeddynt yn gorffwys ar yr ynys cyn dychwelyd i Burma. Mae'r hen ŵr yn ymfalchïo hyd heddiw yn y gydnabyddiaeth honno ac yn pwysleisio y ffaith ei fod wedi cael braint o adnabod "The Welsh, always a happy bunch." Tybed a oes rhai yn cofio'r seremoni o drosglwyddo gwn i bobl Kandy?*

*Fel y gwelwch mae'r fynwent lle gorwedd y rhai a gollodd eu bywydau yn y rhyfel, fel y gwn, yn cael gofal dyfal. Yn siŵr i chi, tydi pobl Kandy ddim wedi anghofio ymweliad yr "hogia".*

*Haydn Jones*
*(39 Maes Padarn Llanberis)*
*P.O. Box 771*
*Mbabane*
*Swaziland*



Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?**
**A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh Development Agency

## CYSYLLTIAD ARALL Â LLANBERIS?




*Adeilad ar un o strydoedd Kandy. Tybed a oes cysylltiad â lle o'r enw yn Llanber? Efallai fod rhywfaint o waed Cymreig gan y perchennog. Os sylwch yn fanwl mae ganddo 'ap' yng nghanol ei enw!*

# IEIR YN Y TALWRN!

Nos Fawrth, Rhagfyr 11 cynhaliwyd gornest o 'Dalwrn y Beirdd' yng nghangen Merched y Wawr Llanrug. Gwrthwynebwyr y tîm lleol oedd cangen MYW Bontnewydd. Y Meuryn oedd Selwyn Griffith, Bethel a rhoddodd ganmoliaeth uchel i'r cynnyrch. Dyma rai o ymdrechion Nadoligaidd tîm Llanrug.

*Annwl Shon Corn*

*Plis gai gorn ynoch chi, nos Dolig, dim corn ben to chi, na corn sgin nain, ond un mawr i chwthu gwunt allan o mol i, nes fudd o'n clecian trwy twll i fynu i'r awur, cos ma lot o blant efo corn, rhei aur a silfyr yn sheino run fath a polis fudd mam yn roi ar lawr. Yfud dwi isio gier bysgota, cos ma mam yn deud fod pysgod yn dda i fyta am fod oil i mewn ynun nw, neith hwnnw helpu fi i chwthu corn. Newch chi roi o yn bocs, rhag ofn iddi fwrw glaw ar i ben, cos neith oil a dwr glaw dim ond cwfio yn y corn a nadu twrw ddwad allan. Fasa fi yn licio lot o betha arall yfyd. Siwt trac, pel drod a sgidiad i gicio, a gêm medda mam i cadw fi'n distaw. Mae mam yn deud bod fi rhu bach i gael Comp i tar. Olis, pidiwch anghofio'r corn.*

*Oddiwrth*
*Charli*

*(ENID W. THOMAS)*

**CAROL**

**Y nos a ymdawelodd**
**Tra'r engyl yyn gytûn**
**A ganai'r gân bereiddiaf,**
**I gyfarch Mab y Dyn.**

**Y seren a ddisgleiriai**
**Fry'n y nen, uwchben**
**Lle cafwyd man i orffwys**
**Yn ninas Bethlehem.**

**Cans, wele Faban dinam,**
**Sef mab y saer, a Mair,**
**Mewn llety gwael yn gorwedd**
**Heb foethau, yn y gwair.**

**Mewn carpiau roedd y bychan,**
**Yng ngofal tad a mam,**
**Ei gwsg oedd felys esmwyth,**
**Ni fynnent iddo gam.**

**Y doethion a'r bugeiliaid**
**A ddaethant at y crud,**
**Er gweld y baban tirion,**
**Sef gobaith yr holl fyd.**

**Gogoniant fo i'w enw,**
**Ein brawd, a'n ceidwad cu,**
**Ei fywyd roddodd trosom**
**O'i fodd, ar Galfari.**

**Am hynny, diolchwn iddo**
**Am fywyd glân, a phur,**
**A fu'n esiampl inni**
**I lynnu at y gwir.**

**ENID W. THOMAS**

**CAROL NADOLIG**

**Fe'i gwelais yn crwydro ar noson oer**
**Trwy strydoedd Bethle'm dan olau'r lloer**
**Nid oedd croeso yno i Joseph a Mair**
**A ganwyd eu baban ar wely o wair.**

**Ond ar wely o wair, cadd yr Iesu mad**
**Groeso gan ddysgedigion y wlad**
**Teithiasant yng ngolau y seren glaer**
**I ddwyn eu anrhegion i Faban Mair.**

**Tlws Faban Mair, yr Iesu dinam,**
**I'w foli, bugeiliaid a ddaethant bob cam**
**I Fethlehem dre, gan blygu yn fud**
**Ac addoli y Baban Iesu'n ei grud.**

**Yr Iesu'n ei grud ym mhreseb yr ych**
**A ddaeth yyn Waredwr i'r gwael ac i'r gwych**
**Ac nid oes gwahaniaeth rhwng dyn a dyn**
**Yn nheulu yr Iesu, 'rym oll yn un.**

**NANCY LOVATT**

**PENNILL YMSON**

**Am ufflon o le – ar goeden werdd**
**Yn trio barddoni – OK gwneud cerdd.**

**Mae'n wep i lawr – oni fasech chi'n flin**
**A thinsel aur yn sond yn y'ch tin.**

**Ma'r goeden reit hardd – wir dwi wedi synnu**
**A'r gole ma'n fflachio i lawr ac i fyny.**

**I fyny beth – ni ddweda i**
**Mi adawa i hwnna i'ch dychymyg chi.**

**Mae'n rhaid i mi ddweud dwi'n edrych mor bert**
**Ond mae'n gas gen i bawb yn byseddi fy sgert.**

**O'r hyn, chi 'di glywed – a dwedaf yn frwd**
**Ma'r "fairy" fach yma yyn dipyn o "prude".**

**Dosbarthwyd anrhegion yn sent ac yn socs**
**Nawr – o diolchaf! – caf fynd i fy mocs!**

**BETHANNE,**
**Llanrug**

*Tŷ Ni*
*Llanoer*
*Cyn Dolig*

*Annwyl Santa Clos,*

*Plis gai feic bach ac olwynion coch arno i weld yn nos fath a beic Wili.*

*Gai set ledar neis arno a pwmp i bwmpio olwynion a basgiad tu nol i ddal sgodyns. Mae Wili ni yn medru sgota, a fi. Mae Wili isio bachun sgota yfyd.*

*Gai ffwtbol go iawn plis, Santa Clos, clen neis, mae gan Wili ni un a ma fo medru cicio hi.*

*Baswn yn lecio y rhina wnewch chi roddi y petha yn gegin ni am fod o yn job cario beic i lloft gefn.*

*Gai betha bach fatha da da ag ati yn hosan ar gwelu.*

*Dwin hogun da*
*Cris croes*
*Tan poeth*
*Sws Santa XXX*
*Tomi Jos*

*IOLA BUTLER*

NADOLIG LLAWEN I BAWB

## RAS BRAMIAU

**Ddydd Mercher, Rhagfyr 26**

**Cychwyn am 1.30 ger y Warws, Llanberis.**

**Digwyddiad blynyddol dan nawdd Clwb Pêl-droed Llanberis.**

## YMSON 'FAIRY' AR BEN COEDEN NADOLIG

**"Helo! Dolig Llawen ddymunaf i chwi**
**A blwyddyn lewyrchus i bawb yn y tŷ."**

**A dyna'r cyfarchion a glywaf o'm cwmpas**
**Gan bobl a phlantos – a minnau mor ddiflas.**
**Yn eistedd, mor boenus, yn uchel i fyny**
**Ar ben rhyw hen frigyn. O wir 'rwy'n gresynu**
**I mi landio fy hunan yn y fath sefyllfa.**
**Rhown y glityr a'r cyfan am gael dianc oddi yma.**

**Ydach chi wedi meddwl mewn difrif rhyw dro**
**Peth mor sobor undonnog ydyw edrych ar do –**
**Ddydd ar ôl dydd, awr ar ôl awr.**
**Wel! coeliwch chi fi, gallaf ddwedyd yn awr**
**'Rwy'n teimlo'n gyfoglyd wrth edrych i lawr**
**Ar drimings a thinsel a swigod mawr**
**Yn hongian yn lliwgar, o un wal i'r llall,**
**A rhyw glown powld mewn cornel ddim hanner call**
**Yn piygu a nodio a wincio, gan wenu,**
**Pan wêl o fy nicyrs wrth edrych i fyny!**

**A Santa Clôs? Dwn i'm pwy 'sa'n ei leicio.**
**Pan ddaw yn y tywyllwch, ac wrth fyned heibio**
**'N rhoi pinshiad bach sydyn a slei i'm pen ôl,**
**A 'nghosi'n gellweirus a brwnt dan fy nghôl.**
**A choeliwch chi fi, tydi o ddim hanner mor neis**
**Pan, yn nuwch y nos, y mae'n sglaffio mins peis.**
**Ac ni wyddoch chwaith, wrth adael y wisgi**
**I'r cenna, mae wedyn rhy ffisgi –**
**O lawer – â fairy ddiniwed.**
**Dwi ofn am fy mywyd rhag imi gael niwed!**
**Peidiwch meddwl am foment fod fy mywyd yn bleser**
**Mi ffeiriwn fy ngorsedd front, unrhyw amser,**
**I ymuno'n y gwledda, y dawnsio a'r miri**
**Canys dyna i mi yw *gwir* fywyd 'fairy'.**


**A hwyrach tro nesaf wrth roi eich dymuniad**
**Am Ddolig pleserus i un o'ch anwyliaid**
**Y ceisiwch, wrth ddathlu genedigaeth eich Crist,**
**Gofio am un sydd yn unig a thrist.**
**Ac y gwnewch, am eiliad, ddod yn ôl i'ch co'**
**'Rhen 'fairy' fach brydferth sydd yn styc wrth y to.**

**MAIR HUWS**
**Llanrug**


Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

**STERMAT**
**OFFER TŶ A GARDD**
**CAERNARFON**
**Ffôn: 76506**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



# CWM-Y-GLO

**Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.**

CROESO ADREF: i Mrs Iris Rowlands, Glanrafon ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Dymunir wellhad buan iddi.

YR YSGOL: Yn ystod yr wythnos yn dechrau Rhagfyr 10 bu plant Safon 3 a 4 yn treulio cyfnod yng Nghlynllifon yn mwynhau'r amrywiol weithgareddau.

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o'r Gymdeithas yn yr ysgol nos Fawrth, Tachwedd 6, 1984. Croesawyd y Prifathro newydd, Mr Dafydd Idriswyn Roberts i'w swydd ynghyd â'r athrawes newydd, Mrs Eirian Howells, sy'n dysgu'r dosbarth canol yn yr ysgol. Penderfynwyd ar gyfansoddiad newydd i'r Gymdeithas a thrafodwyd nifer o faterion eraill o bwys, megis cyfarfodydd rhieni i drafod gwaith eu plant a'r priodoldeb o gael gwisg ysgol.

Pwysleisiodd y prifathro yr angen i'r gymdeithas, yn ychwanegol at fod yn gyfrwng codi arian at gronfa'r ysgol, geisio hybu gweithgaredd cymdeithasol, ac amlinellwyd dulliau o wneud hyn. Yn ystod y flwyddyn ysgol bwriedir cynnal Danws Werin, taith gerdded ar hyd lwybrau'r ardal a noson goffi.

Swyddogion y gymdeithas am eleni fydd: Cadeirydd: Mrs Sylfia Williams, Is-gadeirydd: Mr Dafydd Idriswyn Roberts, Trysorydd: Mr Jerry Wardle, Ysgrifennydd: Mr Gwyn Hefin Jones, Is-ysgrifennydd: Mrs Margaret Williams.

Nos Fawrth, Rhagfyr 4 cynhaliwyd Bingo yn yr ysgol o dan nawdd y gymdeithas. Cafwyd noson lwyddiannus iawn, gyda llu o wobrau gwerthfawr i'w hennill. Dyma restr o'r enillwyr raffl:

**Llestri Superted**: Dafydd Hugh Rowlands, **Hambwrdd**: Nia Hughes, **Tebot**: Sylvia Williams, **Cyllell Teisen**: Tom Owen; **Aftershave**: Mark Roberts, **Llyfr**: David Hugh Rowlands, **Raffl Fawr**: Ffrwythau: William Wardle, **Sieri**: Medi Jones, **Bisgedi**: Sara Roberts, **Siocled**: Val, **Sieri**: Wyn Morris, **Gwydrau**: Mark Roberts, **Crackers**: Mrs Macaffety, **Siocled**: Dora Roberts, **Shortbread**: Iola, **After Eight**: Margaret Humphreys, **Siocled Orennau**: Avril Jones.

Y galwr oedd Mrs Enid Price, a Mrs Margaret Williams oedd y prif drefnydd. Diolch i'r llu rieni erail a fu'n cynorthwyo ac i bawb a gyfrannodd tuag at y gwobrau gwerthfawr ac mewn unrhyw ffordd arall. Gwnaed elyw o £156 ar y noson.

CLWB POBOL Y CWM: Yng nghyfarfod Rhagfyr mwynhawyd prynhawn difyr yng nghwmni Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd drwy iddo adrodd hanes ei fywyd cynnar yn ei ardal enedigol, Clynnog, a chylch cyfagos, Eifionydd; ardaloedd oedd yn gyfoethog o feirdd a llenorion. Penderfynwyd rhoi rhodd o £10 tuag at ymgyrch anffadusion Ethiopia.


Rhoddwyd y te gan Mrs E. Jones, Seiont House a Miss E. Davies, Noddfa, a'r raffl gan Mrs Hugh Pritchard. Enillwyd y raffl gan Mrs E. Jones. Mar cyfarfod i ddathlu gŵyl y Nadolig wedi ei drefnu dydd Iau, Rhagfyr 20.

DIOLCH: Dymuna Mrs Iris Rowlands, Glan'rafon ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra'n Ysbyty Dewi Sant, Bangor ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch yn arbennig i bawb yn ffatri Glyn Protective Clothing, Llanberis.

WEDI GWELLA: Da iawn yw deall fod Mrs E. Davies, Noddfa yn gwella'n foddhaol ar ôl damwain yn ei chartref.

CLOD: Mae Steven Owen, mab Mr a Mrs Ifan J. Owen, 14 Dolafon wedi bod am dri diwrnod o dreials gyda'r "Welsh Under 18 schoolboys" yn y Stadiwm Chwaraeon Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Clod fawr i ti Steven a phob dymuniad da i'r dyfodol.

TLWS PADARN: Bydd tîm Pêl-droed Cwm-y-glo unwaith eto eleni yn chwarae am dlws Padarn yn erbyn tîm pêl-droed Llanberis ar Ionawr 1. K.O. 2 o'r gloch ond fydd y bws yn cychwyn o'r pentref am hanner awr wedi un am ddim i'r cefnogwyr. Cefnogwch yr hogia, diolch.




**YR ANRHEG**

Daeth i'n tŷ ni yn dusw blewog gan Goronwy, Moss Bank, yn anrheg i'r bachgen bach, ac un annwyl iawn oedd yr wningen hefyd, a bod yn deg. Ond druan â mi, dechrau gofidiau oedd y rhodd garedig i'r 'hogyn bach'. Dyma fel y bu. Heb fod ymhell o'r Tŷ Capel, lle yr oeddem yn byw, yr oedd Mr Woods, yr heddgeidwad yn byw hefyd. Daeth atom i ofyn a oeddem wedi colli rhywbeth. Dywedodd y wraig a minnau fod y cyfan ar gael yn ein tŷ ni. Ond nid felly yr oedd – wedi deall mai rhywbeth byw oedd ar goll, daeth y gwningen i'n cof. Deallwyd gan y plismon mai yn yr 'Air Ministry' yr oedd, a gwell fyddai i ni ei chyrchu oddi yno fy nghyfle cyntaf! Rhoddwyd y traed yn y tir, a mynd yno i'w nôl. A dyna ddechrau'r holi gan swyddog pwysig yr olwg. Sut un oedd yr wningen – ei lliw a'i llun? Beth oedd y rhif a oedd ar y fodrwy am ei choes? Dim syniad! O dipyn i beth, cefais yr hawl i groesi'r ffordd fawr, yng nghwmni un arall o'r staff, i'w chyrchu. Ond rhaid oedd dychwelyd i'r swyddfa i nôl fy matches gan na allwn fynd i'r fath le peryglus gyda'r deunydd tân yn fy meddiant. O'r diwedd, ei chario dan fy nghesail yn ôl i'w chartref.

Rai wythnosau yn ddiweddarach, roeddwn yn dychwelyd o Jerusalem ar bnawn Sul, ac yn aros amdanaf o flaen gorsaf yr Heddlu yr oedd y Rhingyll Emyr Jones. Dywedodd wrthyf fod un o'm haelodau yn y gell, ac a fyddwn cystal â dod yno i'w weld. Wrth gwrs, nid oeddwn ond yn rhy barod. Wedi'n tywys yno ni allwn weld neb, ond wedi craffu gwelwn yr wningen yn hapus braf! Meddwn wrth y Rhingyll – "Os gwyddoch am rywun eisiau cwningen – y mae i'w chael am ddim!" Dywedodd fod ei fab yn ymddiddori ynddynt, ac iddo ef yr aeth y bwndel direidus.

*Y Parch L.G. Roberts, Caernarfon. (Llanberis gynt)*

# Y DDAU FRYN DU

## gan
## Mrs Buddug Griffith, Llanfaircaereinion

Pan agorodd y Faenol y chwarel, credai llawer llanc fod yr oes aur wedi cychwyn. Felly bachgen ifanc cyhyrog o Sir Fôn, mab fferm ar lannau'r Fenai. Mor falch ydoedd o gael gwaith fel y llamodd dros bob gwrych a chlawdd i'r Felinheli ar ei ffordd yn ôl, Huw Wiliam oedd ei enw. Buasai'n well iddo fod wedi aros ym Môn.

Gweithiai oriau hir yn y chwarel fel pawb arall. Ar bnawniau Sadwrn, ac yng ngolau llusern fin nos, adeiladodd Bryndu isaf, i ddechrau, a'r uchaf wedyn. Cariai bridd mewn pwcedi, o wahanol leoedd i wneud rhai o'r caeau. Yr oedd sgweiar y Faenol yn ei deall hi'n iawn. Caniatâi i'w weithwyr adeiladu tai a chau hyd at ddeg acer o dir i'w cadw yn yr ardal ac yn y chwarel. Er mai'r trigolion a adeiladai'r rhan fwyaf o'r tai, talent rent i'r Faenol – isel mae'n wir, – ond isel ddychrynllyd oedd ei gyflog iddynt. Bodlon oedd y Sgweiar i gapeli gael eu codi hefyd, oherwydd derbyniodd y ffaith fod y rhaniad o'r Eglwys gyda'r Diwygiad wedi digwydd, a bod crefydd yn rhan hanfodol o fywyd ei weithwyr. Yr oedd cadw buwch neu ddwy, moch a ieir, yn gaffaeliad garw i helpu cyflog y chwarel.

Yn y modd yma y bu i Waun Gynfi gael ei phoblogi, ac yn ôl 'Hanes Waun Gynfi' gan J. Roberts, "Cenhedlaeth werthfawr o ddynion llafurus a chrefyddol oeddynt."

Un o'r rhain oedd Huw Wiliam Bryndu. Darllenai ei Feibl yn wastad, ac ni chollai foddion gras mewn blwyddyn. Areithiai ar Ddirwest yn gyson ar hyd yr ardaloedd. Yr oedd ganddo ei ffordd ei hun o feddwl a llefaru. Areithiai ar y Maes yng Nghaernarfon a threiddiai ei lais trwy'r heolydd pellaf nes llanwai'r Maes o wrandawyr canys treiddiai yn rhwydd a huawdl.

Er ei fod yn ddyn 'cyhyrog a gewynog' niweidiodd ei gorff a'i iechyd wrth weithio mor galed yn y chwarel a'r tyddyn a chyda chrefydd. Cafodd gystudd caled a bu farw yn hanner cant a phedair mlwydd oed. Claddwyd ef yn y fynwent tu ôl i gapel Ebenezer. Mae'r garreg fedd i'w gweld yno o hyd a'r ysgrif arni:

*Er cof am Hugh Williams, Bryndu*
*Yr hwn a fu farw Chwefror 4ydd 1855*
*Yn 54 oed*
*Hefyd Jane Williams ei wraig, yr hon a fu farw Mawrth 10fed 1881 yn 80 mlwydd oed.*
*Hûn y ddau yn y ddaear, oer isod*
*Wylia'r Iesu hawddgar*
*Hyd ddyddiad eu huniad a'r*
*Ddilychwin gof sydd lachar.*
*Eu Hwyr*

Mae disgynyddion iddo yno hefyd, er bod rhai o'r cerrig beddi wedi eu torri neu eu rhoi i wneud llwybrau, sy'n gywilydd o beth.

Taid Deiniolfryn oedd Huw Wiliam a hen daid i minnau.

Sian Lewis, o Fôn hefyd, oedd gwraig Huw Wiliam, ac fel yntau yn grefyddol iawn. Dywedai ei phrofiad yn y Seiat mewn ffordd gartrefol. Dyma enghraifft:

*"Lle yw'r Seiat i dynnu brwsh drosom, i wasgaru'r llwch oddiar ein heneidiau."* Gallai brydyddu hefyd, a chyfansoddodd Evan Jones, Caradog Place, y Codwr Canu, gerddoriaeth i'r geiriau a ganlyn o'i heiddo.

*"Mae rhedfa 'mywyd fel y lli,*
*Nid erys funud wrthyf fi,*
*Pob gweithred ofer wnes yn ffôl,*
*Ni ddychwel honno fyth yn ôl."*

Bu ei chrefydd yn nerth iddi mewn tymhestloedd bywyd, ac ni chollodd ei natur bodlon a charedig. Cafodd fyw i fod yn bedwar ugain mlwydd oed.

Yn amser fy mhlentyndod cymerai'r tyddynwyr falchder mawr yn eu ffermio a'u stoc. Mynych y clywech "Tyd draw i ddweud be ti'n feddwl o'r ddynewad a brynis i gin John Robaitch, neu Huw Garth" fel y byddai. Wedyn clywech "Mi ges i bris da am swynog yn ffair Borth – faint wyt ti'n feddwl?"

Y ffasiwn oedd cadw buwch odro, neu ddwy, a rhyw ddwy o heffrod, a rhoi'r heffrod allan i bori ym Mhenisarwaun neu Lanidan dros yr haf, tra tyfai'r gwair, a'r adlodd wedyn. Os nad oedd un o'r heffrod am gael ei chadw i ddod â llo yn y Gwanwyn, gwerthid hwynt Glangaeaf, i borthmon gan amlaf, a hir fyddai'r bargeinio, a thrin beiau a rhinweddau'r heffrod druan, cyn taro llaw. Weithiau gadawai'r porthmon heb brynu, ond os dychwelai drannoeth neu dradwy, gwyddech yn siŵr ei fod amdanynt. Ychydig iawn a gadwai fustych yr amser hynny. Cofiaf yn dda y diwrnod y cafwyd ugain punt am fuwch am y tro cyntaf. Pawb ohonom yn teimlo fel 'milionêrs', ac er hynny i fyny mae prisiau wedi mynd.

Gofalai pawb fod y gwartheg a'r beudy yn lân. Gwneid ysgub gyda grug i ysgubo'r beudy ac o'i gwmpas, a lluchio llond bwcedi o ddŵr drosto. Doedd wiw cael caglau ar y gwartheg.

Mantais byw mewn fferm fechan oedd fod gennych, bob amser, fenyn llefrith a llaeth enwyn ac wyau, a digon o le i blant chwarae.

Erbyn heddiw mae natur wedi cymryd ei heiddo ei hun yn ôl, ac aeth rhan helaeth o Waun Gynfi yn 'Wyllt Walia.'

# NANT PERIS

**Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon**

MARW: Yn dawel yng nghartref ei fab a'i ferch yng nghyfraith ym Methel bu farw Mr John Morgan, 1 Gwastadnant yn 82 oed. Cydymdeimlir â'i ddau fab, Glyn a Stanley, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Nancy Closs Williams, gyynt o 1 Tan-y-bryn ar fod yn nain eto. Ganwyd mab i Wendy a George yn Aberystwyth. Dymunir pob bendith ar y teulu bach newydd.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Iwan, Llys Awel, am fod yn llwyddiannus yn ei brawf gyrru car.

# LLANBERIS

**Gohebydd: Jane Morris, Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch (Llanberis 871561)**

LLONGYFARCHIADAU: Ein llongyfarchiadau i Charles a Pat Saynor, 42 Maes Padarn ar ddod yn nain a thaid eto. Ganwyd merch, Rebecca Louise i Heather, eu merch a'i gŵr Lindsey. Chwaer fach i Simon. Mae'r teulu bach yn byw yng Nghaerdydd.

COFION: Ein cofion at y rhai sy'n wael eu hiechyd yn eu cartrefi ac i'r rhai sydd mewn ysbytai gan ddymuno gwellhad buan iddynt. Yn Ysbyty Gwynedd mae Mr Willie Glyn Roberts, Rock Terrace a Mr Glyn Williams, 18 Maes Padarn. Ein cofion a'n dymuniadau gorau i Mrs Alice Jones, 70 Maes Padarn sydd hefyd wedi mynd i'r ysbyty.

RHOI CIC YMLAEN: Llongyfarchiadau i Marc Lloyd Williams am ennill wobr Arian yn y Coca Cola Super Skills Football Scheme.

RAS BRAMIAU: Cofiwch am y ras flynyddol hon dan nawdd y Clwb Pêl-droed sydd i'w chynnal ddydd Gŵyl Sant Steffan, Rhagfyr 26. Y man cychwyn (1.30) a gorffen fydd y Warws. Dowch yn llu i wylio a chefnogi. Os ydych am gymryd rhan cysylltwch â Mr Lal Jones neu Mr Arfon Phillips.

YSGOL DOLBADARN:

**Cyngerdd:**

Caed cyngerdd diddorol yn yr ysgol ddydd Mercher, Rhagfyr 12 gan Mr Adam, athro teithiol dysgu chwythbrennau, a'i gyfaill Nick ar y piano. Yn ystod y cyngerdd chwaraewyd cerddoriaeth glasurol yn ogystal â cherddoriaeth ysgafn. Mwynhawyd y cyngerdd yn fawr gan holl blant yr Adran Gynradd.

**Partïon Nadolig:**

Brynhawn Iau, Rhagfyr 13 cafodd plant Adran y Babanod eu parti hwy. Yn ystod y prynhawn ymwelodd Santa Clôs â'r Ysgol gan gyflwyno oren i bob plentyn. Yr oedd y plant wedi eu cyfareddu gan bresenoldeb Santa. Diolch yn fawr iddo am gofio amdanom. Ddydd Gwener, Rhagfyr 14 cafodd plant yr Adran Iau eu parti. Cafwyd gwledd foethus iawn ac yr oedd yr holl blant wedi mwynhau eu hunain. Dymuna'r prifathro ddatgan ei werthfawrogiad i'r holl ferched a fu'n gweithio mor ddyfal i sicrhau fod y partïon yn rhai mor dda.

**Disco'r Urdd:**

Yn dilyn Parti Nadolig, nos Wener Rhagfyr 14 cynhaliwyd disco i holl aelodau'r Urdd. Cafwyd orig fywiog iawn yn neuadd yr Ysgol ac ar ddiwedd y noson aeth y plant gartref yn domen o chwys ac yn flinedig. Diolch eto i'r athrawon a fu'n trefnu'r disco.

**Pêl-rwyd:**

Enillwyd dwy gêm olaf y tymor hwn, yn erbyn Ysgol y Gelli o 14 pwynt i 1, ac Ysgol Santes Helen o 17 pwynt i 5. Llongyfarchiadau i'r genethod.

**Pêl-droed:**

Bu Tîm Pêl-droed yr Ysgol yn llwyddiannus yn erbyn Ysgol Gwaun Gynfi yn rownd gyntaf Cwpan yr Urdd. Mewn gêm gyffrous iawn dim ond dwy gôl gan Cai Williams a wahanodd y ddau dîm ar y diwedd.

**Mini-rygbi:**

Bu nifer o fechgyn yr Ysgol yn cyfrannu'n frwdfrydig i lwyddiant timau mini rygbi Caernarfon y penwythnos diwethaf. Yn y tîm buddugol 9 oed yr oedd Elwyn Foulkes, Ian Lloyd Hughes, Stephen Edwards, Jason Jones, Anthony Rogers, Crispin Hawkins. Yr oedd Alun Baylis, Edward Rogers a Llifon Foulkes yn cynrychioli'r tîm 10 oed. Sgoriodd Cai Williams gais i un tîm.

Llongyfarchiadau i Ian Lloyd Hughes a fu'n llwyddiannus yn yr Arholiad Arian yn y Coca Cola Super Skills Football scheme.

**Ennill Medalau a Bathodyn:**

Llongyfarchiadau i Catherine Gray Williams am ennill pedair medal am nofio yng Nghanolfan Hamdden Arfon, ac hefyd i Anna Lloyd Roberts am ennill un fedal. Llongyfarchiadau i Sam Williams a Colin Ellis hefyd am ennill bathodyn am nofio 10 metr.

**Gwasanaeth:**

Nos Sul, Rhagfyr 16 cynhaliwyd Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau yn Eglwys St Padarn gan blant o'r Adran Gynradd. Caed gwasanaeth bendithiol tros ben, a'r plant ar eu gorau fel arfer. Diolch am y gefnogaeth a gaed. Daeth cynulleidfa dda i'r Eglwys i wrando ar y plant.

**Casglu i'r Deillion:**

Rhwng y casgliad a wnaed yn yr Ysgol a'r un y Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau, fe gasglwyd y swm o £93 i Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru.

**Ymweliad â Phlas Pengwaith:**

Aeth parti o'r plant gyda Mrs E. Pierce a'r prifathro i Blas Pengwaith brynhawn Mercher, Rhagfyr 19 i ddiddori'r henoed yno. Treuliwyd orig ddifyr yn canu carolau i'r henoed ac fe roddwyd blwch o fferins yn anrheg i drigolion y Plas oddi wrth yr Ysgol.

*(Rhagor o newyddion Llanberis ar dud. 19)*

**Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr Eco.**




**Snwcerwyr!**
am gopi o'r
**RHEOLAU SNWCER**
**YN Y Gymraeg**
Cysylltwch ag
**Edgar Humphreys**
Gerallt, Heol y Dŵr,
PENYGROES, Arfon
**Ffôn: 881548 (fin nos)**
80c – yn y siopau £1 – drwy'r post


# DOSBARTH O LANRUG



*Gwyddom mai dosbarth o blant cynradd o Lanrug a'u hathrawon sydd yn y llun — ond dyna i gyd. Pwy ydyn nhw tybed a phryd y tynnwyd y llun? Gwybodaeth os gwelwch yn dda. Diolch i Mr E.J. Owen, Falmouth, Corwall am gael benthyg y llun.*

## Rasus Traws Gwlad – Pencampwriaethau Gwynedd

Ar gaeau'r Brifysgol yn Nhreborth, Bangor ar fore Sul, Rhagfyr 16, cynhaliwyd y gyntaf o gyfarfodydd blynyddol gobeithio, i benderfynu pencampwyr traws gwlad Gwynedd mewn gwahanol grwpiau oedran. Roedd nifer o redwyr ifanc o fro'r Eco yn cystadlu, a daeth pawb o Fangor yn fwdlyd ond yn fodlon.

Yn y ras i enethod o 11 i 13 oed, daeth Linda Prydderch o Lanberis yn ail a Julia Bayliss, hefyd o Lanberis yn bedwaredd. Roedd Janninne Williams o Bontrug yn bymthegfed.

Yn y ras i fechgyn o'r un oedran, daeth hogia'r Waunfawr i'r amlwg; sef Wayne Owen yn chweched, Garym Jackson yn seithfed, Euros Wyn yn 15fed, a Dylan Jones yn ugeinfed – mewn ras o dros 40 o fechgyn.

Yn y ras i fechgyn o 13 i 15 oed, daeth Adrian Owen o'r Waunfawr yn drydydd.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.


AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU
neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch
**BRYN**
**LLANBERIS 870793**
**B & K WILLIAMS**
**TANRALLT**
**CWM-Y-GLO**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

**W.H. JONES**
Trydanwr
**Green Bank**
**Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati
Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
**GWYNETH ROBERTS**
(Siop E. Wilson Hughes gynt)
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.
**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**

## TAFARN GORS BACH
## LLANDDEINIOLEN

Dymuna
Bob, Mair, Steve, Sharon ac Emma fach

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD RAGOROL

i'w holl gyfeillion
a chwsmeriaid hen a newydd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

***GWILYM A MEIRWEN JONES***

## SWYDDFA'R POST
## BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD, MELYSION, PAPURAU NEWYDD

# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

MERCHED Y WAWR: Aeth y gangen i Westy'r Victoria, Llanberis nos Fercher, Rhagfyr 12 i gael eu cinio Nadolig. Ar ôl cinio blasus iawn, roedd yr adloniant yn nwylo Ann Hopcyn. Cafwyd nifer o eitemau canu, dyfalu enwau caneuon a cwis bach o 'Sion a Sioned' ar ffurf Sion a Sian i weld os yw ffrindiau yn adnabod ei gilydd. Cymerwyd rhan gan Mrs Gwyneth Jones a Mrs Anne Elis, Mrs Mary Griffiths a Mrs Eirlys Sharpe a Mrs Ceinwen Williams a Mrs Lynwen Morris. Gwnaed raffl arbennig a'r enillwyr oedd Mrs Jones, Mrs Mary Evans, Mrs Nia Jones, Ann Hopcyn, Mrs Alice Jones, Mrs Evans, Parciau Rhos.

Diolchodd y llywydd, Mrs Glenys Griffiths, i Ann am y noson a dymuno Nadolig Llawen iawn i'r holl aelodau.

YR YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd bore coffi lwyddiannus iawn yn y Neuadd, bore Iau, Rhagfyr 13. Daeth nifer dda i wrando ar y plant bach yn canu ac yna mwynhau paned o goffi a mins pei. Diolchwyd i'r athrawes Mrs Rita Williams a Mrs Margaret Rees am eu gwaith da gan Mrs Sian Robinson y trysorydd. Diolchodd hefyd i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Enillwyd y rafflau gan – Potel Sieri: Mrs Anne Elis, Oven Gloves: Sioned Catrin, Bocs o Nwyddau: Ann Hopcyn, Dyfalu pwysau coes oen: Mrs Gracie Jones, Bro Rhos.

DYWEDDÏAD: Llongyfarchiadau i Siân Morgan Llwyn Bedw ar ei dyweddïad.

DIOLCHIADAU: Dymuna Myra Griffith, Crud yr Awen ddiolch i gymdogion a ffrindiau yn ardal Eco'r Wyddfa am bob gair o gydymdeimlad a dderbyniodd hi a'r teulu yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i'w chydweithwyr am bob cymorth a chefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU: a dymuniadau gorau i Peter Sharpe, Ael y Bryn fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Ragfyr 23. Mae Peter yn gapten Ysgol Brynrefail eleni.

Llongyfarchiadau i Helen Jones, Glan Gors ar ei llwyddiant yn yr arholiad SEN yn ddiweddar a dymuniadau gorau i Helen yn ei swydd newydd fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd.

YR URDD: Nos Wener, Rhagfyr 7 dathlwyd pen-blwydd cangen yr Urdd yn 10 oed gyda pharti i aelodau a chyn-aelodau yn y Neuadd. Rhoddwyd gwahoddiad i'r holl gyn-aelodau ac hefyd i bawb a fu'n gweithredu ar y pwyllgor neu a fu'n helpu gyda'r Urdd yn ystod y cyfnod. Derbyniwyd ymddiheuriadau a dymuniadau gorau oddi wrth Alwyn a Nia Jones, Stâd Eryri gynt ac oddi wrth Mrs Jean Evans, Tan y Cae gynt. Estynnwyd croeso cynnes i Mrs Enid Hughes, Llys Gwynedd gynt a Mrs Dorothy Roberts, Julie a Bethan, Stâd Eryri gynt a hefyd i nifer o bentrefwyr a fu'n dathlu gyda'r aelodau. Cyflwynwyd tarian hardd i ddathlu'r achlysur gan Mr Richard Ll. Jones a chyflwynodd y pwyllgor anrheg i Anti Fanny fel arwydd o werthfawrogiad o'i chyfraniad i'r adran.

Diolchwyd i Mrs Mair Jones, Glan Gors am y gacen hardd ar ffurf bathodyn yr Urdd a hefyd i'r merched fu'n addurno'r neuadd ac a fu'n paratoi bwyd mor flasus.

Diweddwyd y noson yn canu gyda Jini Owen. Fel hyn y canodd Mr

## NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL
### ODDI WRTH BAWB YN

# GAREJ MINFFORDD
# BETHEL

(T.R. EVANS)
Ffôn: Y Felinheli **670451**

1985
**Blwyddyn Newydd – Car Newydd!**
METRO, TRIUMPH ACCLAIM,
ROVER a'r MAESTRO di-guro
Dowch draw i'n gweld



Dafydd Williams trysorydd y gagnen i'r achlysur:

**Â gwledd y dathlwn heddiw – ail-uno**
**'Rôl deng mlynedd clodwiw,**
**Adeg atgofion ydyw**
**I gur a hwyl i'r hen griw.**

**Cyfarfod nesaf yr Urdd fydd yn Theatr Gwynedd nos Iau, Ionawr 3 yn y pantomeim.**

CLWB BRO BETHEL: Yn y neuadd nos Iau, Rhagfyr 6 darparwyd lluniaeth ardderchog gan Glwb Ieuenctid y pentref dan gyfarwyddyd Richard Lloyd Jones, 5 Y Ddôl a Nerys Roberts, yr Is-arweinydd. Yna, dan lywyddiaeth Mr R.Ll. Jones cafwyd cyngerdd o safon uchel gan Mrs Ann Hopcyn Evans ar y delyn a Huw Edward Jones (enillydd Cenedlaethol) a'i chwaer Nia o Sir Fôn.

Darllenwyd darn o ryddiaith ar hanes Bethel gan y llywydd, yr oedd yr oll o'r eitemau â naws y Nadolig arnynt.

Cyflwynwyd rhodd i Huw a Nia gan y llywydd, a chyflwynodd Judith Owen, dusw o flodau i Ann Hopcyn; Richard Sharp dusw o flodau i Mrs Jones (mam Huw a Nia) a thusw o flodau arall i Mrs Nerys Roberts. Enillwyr y raffl oedd M.G. Williams, Gwylfa. 2. Mrs S. Hughes, 34 Bro Rhos, 3. Mr Stanley Griffith, Tre Gof, 4. Mrs Williams, Awelon, 5. Miss Megan Hughes, Saron, 6. Mrs Hughes, 35 Bro Rhos.

Gwnaed casgliad i Glwb Ieuenctid. Diolchwyd yn gynnes i bawb oedd wedi gwneud y noson yn llwyddiant gan y Parch W.R. Williams. Hefyd dymunwyd gwellhad i ddau o ffyddloniaid y Clwb sef Mr W.H. Jones, Bron Eilian, a Mrs Hughes Pentir.

Llongyfarchwyd Mr Richard Ll. Jones am fod ar un o ragleni S4C, hefyd M.G. Williams, Gwylfa am fod ar y radio ar y rhaglen 'Ar gof a chadw', am y drydedd waith.

Bu'r noson yn llwyddiant mawr a dymuna yr oll o'r aelodau ddiolch i bawb.



*Dyna i chi sglaffio! Mynd ar 'diet' fydd adduned blwyddyn newydd y rhain!*



*Anti Fanny a roes wasanaeth gwerthfawr i'r gangen yn arddangos y Gacen Pen-blwydd.*

## O GINIO CLWB BRO BETHEL




*Huw Edward Jones a'i chwaer, Nia, yn diddanu'r gynulleidfa ar ôl y cinio.*



*Rhai o aelodau'r Clwb Ieuenctid a fu wrthi'n paratoi lluniaeth i aelodau Clwb Bro Bethel — yn mwynhau'r ychydig sborion oedd yn weddill!*


**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**



**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**

**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**


*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*



**OSMOND W. SHAW DEINIOLEN**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

**GWASANAETHAU TELEDU**
**Ffôn: Llanberis 870545**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

RITA a HARRY OWEN

**BRYN DAIRY**



BETHEL

Ffôn:
Y Felinheli 670487

*Llefrith* *Ymgymerwyr Cludiant*



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**I. MORRIS**

CYFLENWYR PORTHIANT

**DALGETY SPILLERS**
**Y FACHELL**

**LLANDDEINIOLEN**

**Ffôn: Y FELINHELI 670439**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## SGWRSIO

**UN iawn am sgwrsio oedd Syr Ifor Williams. Gwn hyn trwy brofiad gan i mi ei gyfarfod lawer gwaith ar ôl iddo ddod i fyw i Bontllyfni ger Clynnog – rhyw ddwy filltir o Landwrog lle yr oeddwn i yn byw.**

Ganed Syr Ifor Williams yn Nhregarth, Bangor ar Ebrill 16, 1881. Graddiodd yn BA yn 1905, yn MA yn 1907 a DLitt yn 1933. Bu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Gogledd, Bangor o dan Syr John Morris-Jones: yna yn gyd-athro ag ef, ac wedyn yn olynydd iddo fel pennaeth Adran Gymraeg y Coleg.

Etholwyd ef yn Gymrawd o'r Academi Prydeinig yn 1938, a chafodd Fathodyn y Cymrodorion yn yr un flwyddyn.

Yr oedd yn un o ysgolheigion pennaf Cymru, a chyhoeddodd amryw o lyfrau pwysig, yn eu plith "Pedair Cainc y Mabinogi", "Canu Llywarch Hen" a "Canu Aneirin".

Gwrandewch arno'n dweud hanes ei nain:

**"Pan oeddwn i yn hogyn bach yr oedd fy nain yn byw yn yr un tŷ â ni, ac yn gaffaeliad i unrhyw deulu. Hen wreigan gron, garedig, wyllt, danbaid, oedd hi. Un iawn am gymryd plaid y gwan yn erbyn y cryf, un y buasai'r Hen Destament yn ei galw'n Ddinas Noddfa i blant drwg ffoi ati, pan ddelai eu troseddau yn hysbys i'r Awdurdodau goruchaf. Yn ei ffedog hi yr oedd lle, gwych i ymochel rhag y dymestl. Ac yn ei phoced hi byddai'r math hwnnw o dda-da a elwid yn botwm gwyn. A pheth iawn i gysuro'r adfydus yw botwm gwyn. Un bai oedd ar fy nain i mi. Byddai'n andwyo teisen dda neu fara brith wrth roi rhyw hadau dieithr ynddyn-nhw, a elwid yn hada carwa. Wel o bob dim cas gen i, dyna'r peth ffieiddiaf, blas hada carwa. Yr oedd pob hedyn ohono â rhyw ddawn i ledaenu ei felltith am fodfeddi sgwâr o'i gwmpas, nes llygru'n llwyr a'i sawr anfad bob briwsionyn ym mhob congl i'r deisen neu'r dorth. Dioddefais lawer. O'r diwedd darganfûm fod Nain yn cadw'r hada carwa mewn gwydryn â chaead o bren melyn arno. Dyna nyth y gweilch. Cedwid y jar hon ar y silff uchaf i'r dresel dderw, yn y gongl. Ces y tŷ i mi fy hun ryw ddiwrnod, a thrwy help cadair a stôl dringais i fwrdd y dresel, ac ar flaenau fy nhraed medrais gyrraedd yr hada carwa. Es â nhw i'r ardd: cloddio twll yn y pridd, a'u claddu'n ddwfn, – heb un weddi am atgyfodiad ond i'r gwrthwyneb, ac yn ôl â'r jar a'r caead melyn i'w lle ar y dresal. Pan ddaeth diwrnod pobi, darganfuwyd bod yr hada wedi diflannu. Ac arna i y disgynnodd llygaid pawb fel y lleidr. Ni wedais, ond dweud y gwir golau, fy mod wedi mynd â nhw i'w claddu yn yr ardd. Ac wedyn gwasgu fy nannedd i dderbyn y gosb. Er fy syndod dyna Nain yn torri allan, 'Y peth bach!' medda hi. 'Meddwl yr oedd o y basan nhw'n tyfu yn yr ardd'!**

**"Rhyngoch chi a finnau, 'doedd y peth bach yn meddwl dim o'r fath beth. Ond sut bynnag, chwarddodd pawb, a diengais yn ddi-gosb. A godidog oedd blas y deisen nesaf heb yr hada carwa!**

**"Hen wraig nobl oedd fy nain."**

**Ebrill 24, 1944**

Allan o Lyfr 'Medwn I' gan Ifor Williams.

**CARDIAU NADOLIG Y BEIRDD**

**Nos dawel di-awel oedd hi – sanctaidd**
**Nos iengtid goleuni:**
**Awr gannaid oedd awr geni**
**Oesau'n ôl, ein Iesu ni.**

**R. GOODMAN JONES**

**Y NADOLIG**

**O'i ddodi'n swp o Dduwdod – yn y gwair,**
**O ddyn gwêl ryfeddod:**
**Un addfwyn, – un o wyddfod**
**Ein Duw da, gawn wedi dod.**

**E. HAYDN PUGH**

**NADOLIG '67**

**Gŵyl y plant a'r presantau, – gŵyl cofio,**
**Gŵyl cyfarch hen ffrindiau.**
**Hen ŵyl annwyl ei rhiniau,**
**Gŵyl llawn hud, gŵ6l llawenhau.**

**GORONWY EVANS**

**CAROL NADOLIG**

**Bu moli ar Faban Mair**
**Ym mhob rhyw iaith.**
**A'i grud oedd gwely gwair**
**Ar ddechrau'r daith.**
**Daeth gwawr o'r twllwch du**
**A chlywyd nefol lu**
**A seren oddi fry**
**I oleuo'r paith.**

**O plygwn yn gytûn**
**I Aer ein Duw,**
**Mae'n Geidwad i bob un**
**O ddynol ryw:**
**A rhwng y wyrth o'r nef**
**Y rhown soniarus lef:**
**Wrth blygu iddo Ef**
**Cawn fythol fyw.**

**GLYN O FALWYN**
**LLANWDDYN**

**SANTA CLÔS**

**Ewch i rowndio eich reindeers – a llenwi'ch**
**Llywanen â chracers:**
**Ewch i wisgo eich whisgers – a rhodio**
**Er mwyn Guto mewn ermin o gaiters!**

**DIC JONES**

## CYFARCHION Y TYMOR I'N HOLL DDARLLENWYR

# STORI I'R PLANT LLEIAF

# Y SBECTOL

**YN Tyddyn Bach yr oedd Morys Pari yn byw, ac wedi iddo golli ei fam, daeth Sali ato fel morwyn fach. Dyn bach go flin oedd Morys Pari a byddai'n gweld bai ar bawb a phob dim. Y fo oedd yn iawn bob amser, a byddai'n gwylltio yn gandryll am ddim byd bron.**

Un pnawn dywedodd wrth Sali – "Sali, rydwi am fynd i'r sêl i'r Borth bore fory, bydd rhaid i ti gadw dy lygad ar y lle yma tra byddai'n y Borth. Mi ro'i fwyd i'r anifeiliaid yn y bora cyn cychwyn, cei dithau edrych ar eu holau yn ystod y dydd tan nes do i adra."

Ac felly y bu. Cododd Sali i wneud brecwast, a Morys Pari yn bwydo'r anifeiliaid cyn ei frecwast, yna aeth i'r llofft i folchi a gwisgo amdano, ac roedd yn barod ymhen chwinciad. Wrth iddo fynd drwy'r drws gwelodd Sali ei fod yn chwilio am rywbeth drwy'i bocedi. "Beth sy'n bod Morys Pari?" gofynnodd Sali. "Methu cael hyd i fy sbectol rydwi," atebodd Morys Pari. "Wyt ti wedi gweld hi yn rhywle, Sali? Roeddwn yn meddwl yn siŵr fy mod wedi ei rhoi ar y ddresel cyn brecwast." "Naddo wir, welis i moni, a thydi hi ddim ar y dresal chwaith," atebodd Sali.

"Ryda chi yn ei cholli byth a beunydd Morys Pari." "Taw," meddai Morys Pari, yn flin iawn. "Dos i fyny'r lloft na i chwilio amdani, a brysia hefyd neu mi fydda'i wedi colli bargen yn y sêl."

Rhedodd Sali i'r llofft. Chilio'r gwely, o dan y gwely, ymhob man ond dim golwg o'r sbectol. Erbyn hyn roedd Morys Pari wedi gwylltio yn lân ac yn taranu dros y gegin gan geio Sali druan.

"Hwyrach eich bod wedi ei cholli allan ar y buarth," meddai Sali. "Twt lol, doedd gennyf ddim sbectol o gwbl wrth fwydo'r anifeiliaid. Tyrd allan i chwilio rhag ofn. Dos i'r cwt mochyn, Sali, i chwilio. Af innau i'r beudy a'r cwt ieir, a brysia hefyd," meddai Morys Pari.

Felly, y bu. Aeth Sali ar ei hunion at gwt y moch, lle'r oedd wyth mochyn bach gyda'u mam. Sylwodd fod un o'r moch bach yn ysgwyd ei ben yn rhyfedd iawn ac yn rhochian yn od iawn, rhyw sŵn anghyffredin iawn i fochyn bach. Pan welodd y mochyn bach Sali yn plygu ato rhoddodd sgrech a rhedeg oddi wrthi i gornel y cwt.

Anghofiodd Sali ei bod yn chwilio am y sbectol a dychrynodd glywed y mochyn bach yn rhochian mor boenus. Rhedodd ar draws y buarth at Morys Pari a gweiddi, "Morys Pari, dowch, dowch ar frys mae un o'r moch bach yn sâl. Rwy'n siŵr ei fod mewn poen."

Anghofiodd Morys Pari am ei sebctol a rhedeg at y cwt mochyn hefo Sali. "Mae o'n sâl, ydi wir, beth sydd yn bod arno dŵad?" Cododd y mochyn bach i fyny, a hwnnw'n ysgwyd ei ben o ochr i ochr, a rhochian yn ddi-baid. "Mae o'n methu cael ei wynt wyddost ti Sali, mae rhywbeth mawr o'i le, biti, y gorau o'r moch bach i gyd." Gwranda Sali, rhed i'r tŷ a tyrd â'r pot pupur i mi ar unwaith."


"Pot pupur, ddeudsoch chi?" gofynnodd Sali mewn braw o wybod nad oedd neb yn hoff o bupur. "Ia, ia, pupur, pupur, a brysia, mi dria i o beth bynnag."

Mewn eiliad roedd Sali yn ôl gyda'r pupur, a chipiodd Morys Pari y pot a gwagio trwch go dda o'r pupur ar gleder ei law. "Cod y mochyn bach yna i mi Sali," meddai Morys Pari. A dyna fo'n gafael yn y mochyn bach ac yn ei roi o dan ei gesail a chyda'r llaw arall rhwbiodd y pupur i drwyn y mochyn a dal ei law yno cyn hired ag y gallai.

Gwylltiodd yr hen fochyn bach a'r munud y rhoddwyd ef i lawr dyna fo yn dechrau tisian a thisian a thisian. Ac yn wir i chi, beth neidiodd o'i geg, ond yr hen sbectol henffasiwn – sbectol Morys Pari. Cafodd Morys Pari sioc, ond chwerthin a chwerthin wnaeth Sali a dweud, "Wel, wel, ar pwy roedd y bai y tro yna, y chi ynteu'r mochyn bach. Ha! Ha!"

**M.B.H. Llanberis**


SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

*LLANBERIS 871354*

LLOGI CEIR AR GYFER PRIODASAU AC ANGLADDAU. LLOGI BYSUS MINI.

J.M. WILLIAMS

TREFNYDD ANGLADDAU

CABS DEINIOLEN

12 TAI FAENOL, DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 871591

# LLANBERIS

**Gohebydd: Miss Jane Morris, 3 Pen y Bont (Llanberis 871561)**

DATHLU PEN-BLWYDD YN 90 OED: *Mrs Louie Roberts gyda'r gacen pen-blwydd a'r cardiau.*



Ein llongyfarchiadau cynhesaf i Mrs Louie Roberts, Tŷ Newydd, Celgir a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed ar Dachwedd 17. Ganwyd Mrs Roberts yn Bron, Dinorwig, ond mudodd y teulu i Fron y Graig, Llanberis pan oedd yn 7 mis oed, a byth ers hynny mae wedi byw yn yr ardal. Mae'n un o'r hen gymeriadau mwyaf diddorol y fro ac yn meddu ar gof eithriadol o dda. Mae ganddi stôr helaeth o hen hanesion, yn arbennig o hanes Capel Coch. Hwyrach y cawn glywed am rai ohonynt cyn bo hir. Dymunwn y cewch ddathlu sawl blwyddyn hapus eto.

DIOLCH: Dymuna Elisabeth a Hefin Jones, Balaclava House ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Ruth.

FFAIR NADOLIG: Ar ddiwedd mis Tachwedd, trefnwyd Ffair Nadolig Clwb yr Henoed yn y Ganolfan. Bwriadwyd i Mr Sutherland Gwesty'r Fictoria agor y ffair yn swyddogol, ond ar y funud olaf gorfu iddo ymddiheuro am ei absenoldeb, ac anfonodd siec sylweddol iawn i gronfa'r clwb. Dymuna'r clwb ddiolch iddo am ei haelioni, ac hefyd am y diddordeb a ddangosir ganddo bob blwyddyn pan drefnir y cinio dathlu Gŵyl Ddewi yn y gwesty.

Bu'r ffair yn dra llwyddiannus eto eleni, er bod tair ffair Nadolig wedi eu trefnu yn ystod y mis. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r siopwyr lleol am eu cyfraniadau eto eleni a'r cyfeillion hynny am eu cyfraniadau hael, ac i'r cyfeillion canlynol am eu cynorthwy ar y dydd: Mr Hugh Roberts, Stryd y Ffynnon, Mr Ieuan Jones, Erw'r Coed, Mr Eurwyn Jones, Delfryn, Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan, Mr Clark, Maes Eilian.

MARWOLAETHAU:

**Hannah Mary Squires**: Yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar Dachwedd 22 bu farw Mrs Hannah Mary Squires, Glanrafon. Collodd ei phriod rai blynyddoedd yn ôl, a bu'n mwynhau iechyd da hyd yn ddiweddar. Bu'n aelod ffyddlon iawn yn Eglwys Sant Padarn. Claddwyd ym mynwent Nant Peris, gyda'r Parch Alan Hawkins yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu profedigaeth.

**Evie Parry**: Yn frawychus o sydyn tra'n gyrru ei fodur yng nghyffiniau Deiniolen, cafodd Evie Parry, 2 Rhes York, darawiad ar y galon, a bu farw yn y fan a'r lle. Ergyd galed iawn oedd hon i'w briod Eurwen, ac i'w frodyr, Cecil, Bert ac Eric, a chofio iddynt gladdu eu mam rhyw dair wythnos cynt.

Bachgen dymunol a charedig iawn ydoedd Evie, yn fawr ei barch gan yr holl ardal, ac yn barod ei gymwynas bob amser. Cymerai ddiddordeb mawr yn y Band, ac wedi ei gefnogi ers blynyddoedd lawer ac roedd yn aelod ffyddlon iawn yn Eglwys Sant Padarn. Claddwyd ef ym mynwent Nant Peris gyda'r Rheithor Allan Hawkins yn gwasanaethu yn y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf ag Eurwen, ei briod, hefyd gyda'i frodyr a'u teuluoedd yn y golled drom.

**Willie Foulkes Roberts**: Yn ei gartref, Backford, ger Caer ar Dachwedd 20 yn 80 oed bu farw Willie Foulkes Roberts, un o blant y diweddar Mr a Mrs David Roberts, New Bodeiliant gynt (fe gofir David Roberts fel Dafydd 'Rhelfa'). Wedi gadael y Coleg aeth Willie Foulks i ddysgu yn 1926 i un o ysgolion mwyaf yr adeg honno, Ysgol Ellesmere Port, a gwnaeth waith eithriadol yno, pryd y derbyniodd anrhydedd gan y frenhines – yr OBE. Cydymdeimlir â'i frodyr, Mr John Roberts, Basingstoke (gynt o Halford Hill), Mr Huw Ronald Roberts, Pwllheli a Megan ei unig chwaer sydd yn byw yn Ealing, Llundain. Gedy weddw, mab a merch, ac estynnir yr un cydymdeimlad iddynt hwythau.

**Roger Jones**: Yn sydyn ar ôl gwaeledd byr iawn bu farw Mr Roger Jones, 48 Dôl Elidir yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Nid oes ond ychydig flynyddoedd er pan y daeth i'r ardal yma i gartrefu. Estynnir cydymdeimlad i'w weddw, Mrs Jones a'r teulu, yn eu profedigaeth. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Jeriwsalem a chladdwyd ym mynwent Nant Peris. Gwasanaethwyd gan y Parch Hugh John Hughes, gweinidog Jeriwsalem (A).

**Margaret Jones**: Ar ôl ond ychydig ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd, Bangor bu farw Miss Margaret Jones, East Lynne, yn 80 oed. Un o blant yr ardal ydoedd, wedi ei geni a'i magu a byw ei hoes yn gyfan yn yr ardal. Merch i'r diweddar Robert Thomas Jones, Stryd y Dŵr ydoedd. Roedd yn aelod ffyddlon iawn ar hyd ei hoes yng Nghapel Gorphwysfa, ac yna yng Nghapel Coch.

Estynnir y cydymdeimlad llwyraf â'r oll o'r teulu yn eu profedigaeth.

YN YR YSBYTY: Y mae amryw o'r ardalwyr yn dal yn yr ysbyty, ond yn gwella yn araf – a da iawn yw deall hynny. Dymunir i'r oll ohonynt adferiad llwyr a dychweliad gartref at eu teuluoedd yn fuan: Yng Nghallt y Sil y mae Mrs Martin Owen, yn Ysbyty Gwynedd, Mrs Alice Lloyd Thomas, Gwesty Gwynedd, Mrs Roberts, Newton Hall, Mrs Thomas Evans, Caledfryn, Miss Petula Williams, Stryd Newton, Mr Llewelyn Batten, Maes Padarn, Miss Margaret Jones, East Lynne.

LLWYDDIANT FEL NYRS: Llongyfarchiadau i Karen, merch hynaf Mr a Mrs Williams, Tan y Bryn, Stryd Newton ar ei llwyddiant yn yr arholiadau i fod yn nyrs yn Ysbyty Glan Clwyd.

CAPEL COCH: Llongyfarchiadau i aelodau Capel Coch ar yr ymdrechion a wnaed gan amryw o'r aelodau i atgyweirio a glanhau'r capel, ar ôl iddo fod ar gau am dros flwyddyn. Ar y Sul diwethaf o Dachwedd ailagorwyd yr adeilad – ac roedd yn wledd i'r llygaid ac yn ddeniadol i unrhyw unigolyn gael y fraint o addoli yno.

Yng ngwasanaeth y bore pryd y daeth y rhieni a'r plant ynghyd, cafwyd anerchiad gan y gweinidog, y Parch Trefor Lewis, a chyfraniad gan aelodau'r Ysgol Sul, sef Catrin Llwyd Roberts, Nia a Sioned Roberts, Delyth Williams, Gillian Jones, Einir Hughes, Gareth Jones, Gareth Morris.

Yng nghyfarfod y nos pryd y bu cynrychiolaeth o Rehoboth, Nant Peris – Mr Gwilym Searell Jones, cynrychiolydd Eglwysi Presbyteraidd y cylch, Mr E. Jordan, Bethel, ac roedd y cyfarfod yn gyfarfod swyddogol i groesawu'r gweinidog, a chafwyd areithiau croeso gan Mr G.S. Jones, Mr E. Jordan, a Mr Thomas Henry Jones, un o flaenoriaid eglwys Capel Coch. Y cyfeilydd yn y ddau gyfarfod oedd Mr Hugh Peris Pritchard.

CLWB ERYRI: Yng Ngwesty'r Gwynedd nos Wener, Rhagfyr 6 gyda Mr W.A. Jones, Llanrug yn llywyddu, mwynhawyd araith gan Mr Iolo Huws Roberts, Waunfawr.

LLONGYFARCHIADAU: Bu'r Seindorf leol yn cystadlu yn Connah's Quay ar y sadwrn olaf ym mis Tachwedd, a daethant yn 3ydd a derbyn canmoliaeth uchel am eu cyfraniad.

YSGOL SUL NANT PADARN: Aeth plant Ysgol Sul Nant Padarn gyda'u hathrawon a'r arolygwr, Francis Jones, i ymweld â'r trigolion yng Nghartref Penygwaith, gan eu diddori gyda'u canu ac eitemau a gyflwynwyyd ganddynt yn eu Cyfarfod Diolchgarwch. Cawsant groeso mawr, a diolchwyd iddynt gan y Metron a'r Staff. Cyflwynwyd y ffrwythau a'r cyfan a dderbyniwyd oddi wrth y plant i drigolion y cartref.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn y Ganolfan ar Dachwedd 29 dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones. Croesawyd Miss Ellen Owen, VCO a Mrs Edwards a Miss M. Owen.

Cafwyd yr Adroddiad Blynyddol gan yr ysgrifenyddes, ac Adroddiad Ariannol gan y drysoryddes.

Etholwyd y pwyllgor am 1985 fel â ganlyn: Llywydd: Mrs Hannah Jones, Ysgrifenyddes: Mrs Helen Morris. Trysoryddes: Mrs Glenys Jones, Mrs Gwen Edwards, Mrs Jean Elis, Mrs Katie Griffiths, Mrs Betty Humphreys, Mrs A.B. Jones, Mrs Mair Jones, Mrs Dilys Phillips, Mrs Dwynwen Roberts a Mrs Rona Thomas.

Diolchwyd i Miss Owen a'r 'tellers' gan Mrs A.B. Jones, a diolchodd i Mrs Betty A. Owen, Mrs Katie Williams, Mrs M.E. Owen, Mrs Dwynwen Roberts a Mrs Rona Thomas am baratoi'r te.

Enillwyd y raffl gan Mrs Lewis Jones.

CROESO GARTRE! Pleserus iawn bob amser yw croesawu cyfeillion gartre' ar ôl blynyddoedd o fyw fel alltud yn y dinasoedd mawr. Rai misoedd yn ôl dychwelodd Miss Kathleen Pritchard, i'r ardal i fwynhau blynyddoedd ei hymddeoliad yn un o fflatiau Maes Eilian. Er gadael ysgol bu Kathleen Pritchard yn gweithio yn Llundain, a dychwelyd o dro i dro i fwynhau ei gwyliau gyda'i chwiorydd Mrs Annie Evans, Mrs Dwynwen Roberts a Mrs Jean Roberts. Croeso mawr i chi Miss Pritchard, gobeithio yn wir y cewch flynyddoedd lawer o ddedwyddwch yn eich hen gynefin. Mae'n siŵr ei bod hi'n gweld newidiadau mawr yn yr ardal – ond nid yw cyfeillgarwch na charedigrwydd wedi newid dim o gwbl. Fe gewch groeso tywysogaidd syml gan bawb yn yr ardal – gyda balchder yn eich dyfodiad yn ôl i fysg hen gydmogion. (Un o ferched y diweddar W. Pritchard, Stryd Newton yw Miss Pritchard, a hi a'i thair chwaer sydd yn aros allan o deulu mawr.


Cynhelir
**Cyngerdd Mawreddog**
yn Eglwys St. Padarn
Llanberis
am 7.45 p.m.
**Artistiaid: Marian Roberts (Soprano) a Chôr Meibion Caernarfon**
Mynediad: £1.00



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth**

**Y Bistro**
**Glandŵr**
**43-45 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
*Ffôn: LLANBERIS 871278*
(Danny a Nerys Roberts)
**Pryd gorau'r fro**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
**Siop y Co-op**
**LLANBERIS**
**Ffôn: 870263**



CYFARCHION NADOLIG

WAUNFAWR, CAEATHRO, BETWS GARMON



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid oddi wrth

Huw ac Eirlys Griffith

Llythyrdy WAUNFAWR

Bwydydd, Ffrwythau, Papurau newydd a Llysiau Ffres

Ffôn: Waunfawr 221



PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN

(Waun Agricultural Engineering)

Owen Owen

Ffôn: WAUNFAWR 253

● Offer amaethyddol o bob math

● Haearn addurn ar gyfer y tŷ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda !



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Oddi wrth

GWALIA GARAGE CAEATHRO



Ford

Ffôn: CAERNARFON 3096


# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626**

DIOLCH: Dymuna Mr Idris Humphreys, Arwel, a'r teulu ddiolch am bob gair o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth.


LLONGYFARCHIADAU: I Ella Wyn Jones a Gwennan Wyn Jones am ennill y wobr gyntaf, a medal yr un yn Eisteddfod Gadeiriol Chwilog, roeddent yn cystadlu ar y ddeuawd dan 12 oed.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd: 1. £40, Celyth Williams, 9 Stâd Tŷ Hen, 2. £25, Marilyn Roberts, Bodafon, 3. £10, Jean Jones, Llwyn Onn.

CYDYMDEIMLWN: yn fawr â Mrs Walker a Robin, Bryn Golau, yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad hoffus iawn; â Mr Stanley Williams, Cefn Coed, ar golli ei fam, a hefyd â Mrs Rosalind Owen, Brynmor, ar golli ei thad.

ADREF O'R YSBYTY: daeth Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian, a Mari fach, Tŷ'r Heddlu. Gobeithiwn eu bônt yn gwella. Dymuniadau gorau iddynt ac i bawb sydd yn cwyno yn y pentref, gan obeithio y cânt i gyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

MERCHED Y WAWR: Cafodd cangen leol Merched y Wawr eu cinio Nadolig blynyddol yng Nghastell Cidwm, nos Iau, Tachwedd 29. Treuliwyd noson bleserus yn dilyn pryd o fwyd campus. Roedd Miss Bessie M. Jones wedi dod â hetiau o'r oes o'r blaen ac arddangoswyd hwy gan Mrs Catherine Jones, Mrs Alama Jones a Mrs Olwen Williams. Trefnwyd ychwaneg o ddifyrrwch dan ofal Mrs Alma Jones a Mrs Olwen Williams, a raffl gan Mrs Alma Jones a Mrs Gillian Wyn. Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen, oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r trefnu a diolchwyd iddi, a phawb a gymerodd ran gan y llywydd, Mrs Olwen Williams. Croesawyd Mrs J. Awstin Jones a Mrs Rhian Ellis ar ôl eu gwaeledd a chydymdeimlwyd â Mrs Stanley Williams a gafodd brofedigaeth ddiweddar, a chyda Mrs Brenda Jones, oedd mewn ysbyty. Atgoffwyd aelodau y bydd Ysgol Undydd Cenedlaethol ddydd Sadwrn, Ebrill 20, yn y Trallwng. Y testun – 'Cymorth i gystadlu'. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 24 pryd y ceir sgwrs gan Mr W.R. Lewis, y dramodydd o Langefni.



*Mr George Taylor yng nghinio'r henoed ac yn dathlu ei ben-blwydd yn 86 oed.*

CLWB GWYRFAI: Tachwedd 27: Ar waethaf y tywydd garw daeth mwyafrif o'r aelodau i Westy Snowdinia i fwynhau cinio Nadolig ardderchog.

Y gŵr gwadd oedd Dafydd Iwan a chawsom y pelser o fwynhau ei


Mae LLEUFER a NELMA PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.



Mae Mrs Eirlys Birch a theulu

Tŷ Bwyta Trwyddedig

LLETY CAEATHRO

Ffôn Caernarfon 4753

yn diolch i bawb a'u cefnogodd yn ystod y flwyddyn ac yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i chwi oll



EVAN DAVIES

Gwerthwr Glo

Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD GYNNES I'N CWSMERIAID I GYD !

ddawn arbennig i ddiddori, a'i glywyed yn canu yn ei ddull digymar.


Gwaith llai pleserus oedd ffarwelio â'r Parch Trefor Jones, llywydd y Clwb ers 11 mlynedd. Mae'n gadael ei ofalaeth fel Ficer y Plwyf ac yn symud i Lanfairfechan. Cymerwyd y cyfle yma i gydnabod ei wasanaeth ffyddlon i ni. Ac wrth ddymuno'n dda yn ei ofalaeth newydd cyflwynwyd anrheg fechan iddo gan Mrs Morgan Jones, ar ran y Clwb, ac i Mrs Trefor Jones, gan Mrs Williams, Dwyfor. Cafwyd gair gan Mr Overy a Mr O. Williams, Gwynfa yn ategu ein teimladau. Diolchwyd i bawb yn gyffredinol gan y Dr Miles.

Tachwedd 20: Croesawyd Mr a Mrs T. Lyle, Caernarfon i'r cyfarfod hwn – y ddau â chysylltiad agos â'r Waun. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Lyle ar y pleser mae'n gael o hel stampiau. Soniodd fel y magwyd ei ddiddordeb yn y pwnc pan yn ifanc.

Daeth â llawer o'i gasgliad gwerthfawr i ni eu gweld a hanes eu cysylltiad â gwledydd y gymanwlad. Diolchwyd i Mr Lyle gan Mrs Nesfield. Hefyd i Mrs Irene Roberts a Gillian Wyn am baratoi'r te. Enillwyd y raffl gan Mrs Pritchard, rhodd Mrs A. Roberts, Bod Idris.

Ar Ragfyr 13 byddwn yn cynnal ein gwasanaeth garolau, pryd y cawn gwmni plant yr ysgol gynradd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Daeth nifer dda ynghyd i'r Ganolfan nos Lun, Rhagfyr 3 i glywed sgwrs ddifyr gan Mr Emyr Jones, Caernarfon ar 'Hen fandiau pres yr ardal'. Cafwyd eitemau hefyd gan bedwarawd o fand Llanrug o dan arweiniad Mr John Tame. Mr Emlyn Davies oedd y llywydd a thalwyd y diolchiadau gan Mr Iolo Huws-Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ionawr 14 pryd y ceir sgwrs gan Mr R. Gwynn Davies ar ei yrfa fel cyfreithiwr – y troeon difrif a digrif. Mae'n galondid gweld cynifer wedi ymuno â'r Gymdeithas eleni – tros 60 o aelodau. Diolchir hefyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i'r Noson Goffi a gynhaliwyd er budd y gronfa.



SWYDDOG DATBLYGU: Penodwyd Llifon Jones, 23 mlwydd oed o'r Waunfawr yng Ngwynedd fel Swyddog Datblygu Cydweithredol Canolfan Gynghori a Hybu Gwaith Gogledd Cymru (NWERAC).

Graddiodd Mr Jones gydag anrhydedd mewn Economeg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor a gwnaeth astudiaeth o economi ranbarthol, gyda'r pwyslais ar Wynedd. Cafodd ei draethawd ganmoliaeth uchel.

Bydd yn gweithio o swyddfa NWERAC yn adeiladau Cyngor Dinas Bangor ym Mron Castell Bangor ac mae'n awyddus i gysylltu gydag unrhyw un sy eisiau ymuno gydag eraill i gychwyn gwaith cydweithredol.

Mae Mr Jones yn olynu Eurig Wyn, sy wedi ailafael yn ei yrfa fel newyddiadurwr. Gellir cysylltu gyda Mr Jones drwy ffonio Waunfawr 764.

CLWB CANT Y BLAID: 1. Dr Miles, 2. Norman Williams, 3. Mrs Hughes, Llys Meredydd.

## PÊL-DROED

Waunfawr 6, Deiniolen 1

Mewn gêm wych ar gae'r Ganolfan cafodd Waunfawr eu buddugoliaeth gynta'r tymor drwy guro Deiniolen, yn gwbl haeddiannol, o chwe gôl i un.

Er i Ddeiniolen sgorio gôl dda ar ddechrau'r gêm, – ergyd fendigedig o gyrion y blwch cosbi gan Raymond Griffith – tarodd "beganifs" nôl mewn eiliadau. Yn dilyn symudiad da ar y chwith croesodd Gwyn Tomos y bêl yn berffaith i Gwyn Roberts a pheniodd yntau'n gadarn i'r rhwyd.

Yn y cefn roedd Tony Dean, capten Waunfawr, fel craig, a chafodd gymorth da gan Huw Ynyr, Andrew Williams, a Wayne Owen. Gwnaeth Iwan Roberts yn y gôl i Waunfawr sawl arbediad da. Am unwaith Waunfawr oedd yn rheoli canol y cae gyda Paul Brooker a Gerwyn Owen yn ymladd am bob pêl.

Manteisiodd Simon Davies ar flerwch yn amddiffyn Deiniolen i'w gwneud hi'n 2-1 i Waunfawr ar yr egwyl.

Wedi'r egwyl cafwyd goliau da i Waunfawr gan Gwyn Roberts, Paul Evans, Tony Dean a Gwyn Tomos, ac roedd cefnogwyr Waunfawr yn gorfoleddu.

I ddeiniolen cafodd Dylan Lewis gêm dda a than yr egwyl roedden nhw'n edrych yn beryglus iawn. Roedd Howyn Roberts, eu capten, Dylan Lewis a Dewi Williams yn brwydro yn galed am bob pêl.

Dyfarnwyd y gêm yn ddeallus gan un o ddyfarnwyr ieuengaf Cynghrair Gwyrfai, Kefin Roberts.

## BETWS GARMON

DYMUNIADAU gorau i Mrs Brenda Jones, Cynefin a fu'n yr ysbyty yn ddiweddar.

## O GINIO'R HENOED . . .



*Uchod ac Isod: Rhai o henoed Waunfawr yn mwynhau y wledd yn y Ganolfan.*






Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid oll oddi wrth

**EDGAR A CARYS OWEN**
**Stordy**
**Tŷ Newydd**
**WAUNFAWR**
**Ffôn: 594**

BWYDYDD, MELYSION, FFRWYTHAU a PHAPURAU NEWYDD, yn cynnwys papurau dydd Sul



Cyfarchion yr Ŵyl oddi wrth
JONES & OWEN

**BECWS Y WAUN**

Bara Cartra
Brown, gwyn a brith
Pastai a theisennau
O'r popty ddaw yn syth
Ffôn: Waunfawr 239



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Rhys, Marian a Meirion**

**LLYTHYRDY BETWS GARMON**

**Ffôn Waunfawr 233**



**NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA**
oddi wrth bawb ym

MODURDY **Whiteways** WAUNFAWR

**BYSIAU I'W LLOGI**
*Ffôn: Waunfawr 226*



SFP

**SNOWDONIA FIRE PROTECTION**
**YR HEN EFAIL**
**WAUNFAWR Ffôn 235**

**Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref**
**Goleuadau argyfwng Larwm Tân**
**Offer canfod mwg ar gyfer y cartref**
**Hyn oll, a llawer mwy yn ein siop newydd**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth David a Peter Greasley

# DEINIOLEN

Y SEINDORF: Llongyfarchiadau unwaith eto i'r Seindorf. Ar Dachwedd 24 roeddynt yn cystadlu ym mhencampwriaeth Gogledd Cymru yng Nghei Conna.

Cipiwyd y wobr gyntaf yn nosbarth B a daethant yn drydydd ynnosbarth A.

Y canlyniadau llawn: Dosbarth B: 1. Deiniolen, 178 pwynt; 2. Llanrug, 176 pwynt; 3. Royal Oakley, Ffestiniog, 175 pwynt.

Ie, blwyddyn lwyddiannus iawn ym myd y cystadlu. Ond edrych ymlaen am y flwyddyn nesaf mae'r Seindorf. Bydd yn flwyddyn bwysig iawn gyda'r Seindorf yn dathlu ei ben-blwydd yn 150 oed. Y mae llawer o weithgareddau ar y gweill yn barod ond rhagor am hyn yn y rhifyn nesaf.

Bydd Cinio Blynyddol y Seindorf yng Ngwesty Victoria Llanberis ar Ragfyr 31. Cafwyd te parti i'r Seindorf yng nghwt y band nos Iau, Rhagfyr 18.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn y Ganolfan ar Ragfyr 3 gyda Mrs Vera Hughes, Bethesda y VCO am y flwyddyn hon. Roedd dwy chwaer yn ei chynorthwyo, sef dwy Mrs Evans. Croesawyd hwy gan yr is-lywydd, Mrs Eirlys Lloyd Jones, yn absenoldeb y llywydd, Mrs Rita Parry Jones oherwydd gwaeledd. Darllenwyd y llythyr misol gan yr is-lywydd a darllenwyd cofnodion llawn o'r flwyddyn gan yr ysrifennydd. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Gwen Hughes, y trysorydd. Derbyniwyd llythyr oddi wrth y llywydd, Mrs Rita Parry Jones yn ymddiswyddo fel llywydd oherwydd ei hiechyd. Dyma'r pwyllgor: llywydd, Mrs Eirlys Lloyd Jones, is-lywydd, Mrs J. Eirlys Williams, ysgrifennydd, Mrs Marian Williams, trysorydd, Mrs Gwen Hughes. Pwyllgor, Mrs Rita Parry Jones, Mrs Beryl Hughes, Mrs Marian Wyn Williams, Miss Kathleen J. Jones, Mrs Maureen Evans, Mrs Beti Wyn Davies.

Diolchwyd i Mrs Hughes a'i chynorthwywyr gan Mrs Eirlys Lloyd Jones, yr is-lywydd. Rhoddwyd y te gan y pwyllgor. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Miss Kathleen J. Jones, gan Mrs Marian Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 14 pryd y disgwylir Mr Cledwyn Williams, Llanrug.

DOLCH: Dymuna Mrs Williams a Miss parry, 14 Hafan Elan, Llanrug (gynt o Ddeiniolen) ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn ardal Gwaun Gynfi.

Mae Mrs Williams dros ei chant oed.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Clinic, ddydd Mawrth, Tachwedd 27, dan lywyddiaeth Mrs C. Marren. Prif waith y cyfarfod oedd gwneud trefniadau terfynol ar gyfer y swper Nadolig sydd i'w gynnal eleni yng ngwesty Padarn Lake, Llanberis. Ychydig oedd yn bresennol oherwydd y tywydd mawr. Rhoddwyd y te gan Mrs Nancy Rowlands, Mrs Eilrys Ll. Jones, Mrs Jane E. Williams a Mrs Nancy Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs Evie Williams. Gobeithir dechrau tymor newydd y clwb yn gynnar ym mis Ionawr 1985. Ceir manylion eto ymhellach ymlaen.

CLWB ELIDIR: Nos Iau, Tachwedd 29 cynhaliwyd Swper Nadolig Clwb Elidir yn Llanberis. Treuliwyd noson ddifyr gyda Mrs Nancy Rowlands yn gofalu am y gemau.

Enillwyd rafflau gan yr aelodau canlynol: Mrs Jane Jones, Mrs Mary Morris, Mrs Elsie Davies, Mrs Ethel May Roberts, Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Mary Hughes.

Rhoddwyd y rafflau gan: Co-op, Tafarn y Bull, Dick Cigydd, Gwilym Tate, Llythyrdy Deiniolen, a Kathleen. Dymunir diolch hefyd i Mrs Clarice Roberts, Tafarn y Bull, Mrs Margaret Thomas, Caernarfon, gynt o Berthen Gron, Clwt-y-bont, Mr Thomas D. Hughes, Prenteg, ac hefyd i chwiorydd Clwb Dartiau Deiniolen am eu rhoddion anrhydeddus at y Clwb. Diolch yn fawr i bawb.

LLONGYFARCHIADAU cynnes i Anti Kate, Foel Gron, Dinorwig ar ei phen-blwydd Rhagfyr 11 yn 87 oed. Cofion gorau oddi wrth Tommie a Kathleen, Prenteg, Deiniolen.

DOSBARTH WEA: Y nos Fawrth olaf o fis Hydref daeth y dosbarthiadau i ben ar ôl chwe wythnos difyr iawn, gyda Mr Maldwyn Thomas, Bangor yng ngofal y dosbarth. Y testun oedd 'Nes na'r hanesydd', 'Chwilio am y gwir'. Gobeithiwn gael cwmni Mr Thomas eto pan ddechreuir y dosbarthiadau yn 1985.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL: Mis Hydref cawsom y fraint o groesawu'r Parch Harri Parri, Caernarfon. Rhoddodd ddarlith fywiog a diddorol iawn i ni ar 'Ddyn y Ddafad Wyllt'. Estynnwyd croeso iddo gan y Parch Erfyl Blainey.

Mis Tachwedd trefnwyd noson o 'Penigampio' wedi ei drefnu gan y Parch Erfyl W. Blainey. Ef hefyd oedd yr holwr, gyda'r Parch Trefor Lewis. Mrs Margaret C. Griffith, Mr Robert Williams a Mrs Eirlys Williams ar y panel.

Cafwyd noson i'w chofio yn llawn hwyl a diddorol. **Ni fydd cyfarfod ym mis Rhagfyr.**

DIOLCH: Dymuna Malcolm a Lynn Roberts, 47 Rhydfadog, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion, a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ar Dachwedd 17.

Dymuna Mrs Eleanor Morris, 7 Ffordd Deiniol, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion – yn enwedig ei mam – am y cardiau, blodau, a'r anrhegion a dderbyniodd tra roedd yn Ysbyty Dewi Sant. Diolch hefyd i'r meddygon a'r nyrsus.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn Nhŷ'r Ysgol, Dinorwig, nos Fercher, Tachwedd 28. Cynhelir cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty Ty'n-y-coed, Capel Curig ar Ragfyr 15. Gofynnir i aelodau'r gangen roi eu henwau i aelodau'r pwyllgor. Bydd yr adloniant yn Nhy'n-y-coed yng ngofal Triawd y Cennin, o Garndolbenmaen.

Enillwyr Clwb Cant mis Hydref oedd: £10, rhif 47, Mrs Dilys Hughes, Ty'n y Weirglodd, £8.50, rhif 14, Mrs Lona Lewis, 36 Rhydfadog.

Enillwyd mis Tachwedd oedd: £10, rhif 63, Mrs M. Thomas, 1 Tai'r Faenol, £8.50, rhif 28, Mr M. Worth, Niagara.

DIOLCH: Llongyfarchiadau mawr iawn i Mrs R. Lewis, 1 Tai Marian ar gyrraedd ei 90 oed yn ddiweddar ac mewn iechyd gweddol dda. Cafodd de pen-blwydd ardderchog iawn, gan ei mab a'i merch yng nghyfraith o Fangor gyda llawer iawn o'r teulu, cymdogion a ffrindiau. Dymuna Mrs Lewis ddatgan ei gwerthfawrogiad iddynt ac i bawb am y caredigrwydd a gafodd – derbyniodd lu o gardiau ac anrhegion a llawer iawn o flodau.

Diolch o galon i bawb am eich caredigrwydd tuag ati.

CLWB 200: Enillwyd Clwb 200 y Seindorf am fis Rhagfyr:
1. £25, Mrs Laura Evans, 45 Pentre Helen; 2. £15, Mr R.A. Lewis, Waen Fro, Stryd Fawr, Deiniolen; 3. £5, Daniel Wood, Fron Heulog, Dinorwig; dau wobr arbennig ar ddiwedd y flwyddyn – £15: Mr I.W. Griffiths, Hendre Park, Caernarfon; £15, Mr Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont.

TE ARBENNIG: Yn ddiweddar yn y Ganolfan rhoddwyd te i dderbynwyr 'Prydau ar Olwynion' a gwesteion o'r ardal. Rhoddwyd y te gan yrrwyr a chyfeillion y 'Prydau ar Olwynion' a chafwyd adloniant yng nghwmni Arfon Wyn a thalentau'r fro.

Dymuna'r trefnwyr ddiolch o galon i bawb a roddodd mor hael i wneud yr achlysur yn llwyddiant.

DIOLCH: Dymuna Stanley a Mair Williams, a Valmai, Cefn Coed, Waunfawr, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl – Mrs Grace Williams, 44 Rhydfadog, Deiniolen. Hefyd am y llu o gardiau a dderbyniwyd. Trosglwyddwyd yr arian a dderbyniwyd i Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd.

*(Parhad o'r dud. flaen)*

**Medi 1977:** dim ond pedwar plentyn yn dechrau'n yr ysgol.

**Mehefin 1978:** dewis pump o'r mamau i chwarae pêl-droed.

**Chwefror 1979:** cyrraedd yr ysgol a phobman yn nofio! Tua hanner dwsin ohonom wrthi drwy'r bore yn sgubo'r dŵr allan ac yn ceisio sychu'r ystafell.

**Calan Mai 1979:** bore agored. Roedd hi hefyd yn pluo eira!

**Gorffennaf 1979:** Mr Osmond Shaw yn tynnu lluniau'r plant ar gyfer y steddfod. Ymweliad â chartref Mrs Wood yn Ninorwig.

**Awst 1980:** Arlunwyr yn dod i beintio darluniau'n yr ysgol – eu gwaith i'w weld o hyd.

**Mehefin 1981:** cynnal ocsiwn lwyddiannus dan ofal Mr Dafydd Evans.

**Mehefin 1983:** y ddwy athrawes a'r plant yn cerdded am bicnic.

**Tachwedd 1983:** nwy yn rhedeg allan – wrth lwc, lori nwy yn digwydd pasio.

Dechreuwyd gyda deg o blant; bellach mae 25, ac y mae dros 200 o blant wedi mynychu'r ysgol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Dyma'r swyddogion a fu'n gyfrifol am ofalu am yr Ysgol Feithrin am ddeng mlynedd cyntaf ei hoes:

**Cadeiryddion:** Mrs Ros Hughes, Miss Williams, Mrs Carys Hughes, Ms Jen Jones. **Trysoryddion:** Mrs Osborne, Mari Griffith, Diana Price, Eira Wyn Hughes, Denise Longley. **Ysgrifenyddesau:** Valmai Williams, Ellen Williams, Mrs N. Lewis, Eleri, Ruth Jones, Gwen Griffiths, Rhian Evans, Pat Thomas. **Athrawesau:** Eluned Jones, Jeni Morgan, Elfrys Jones, Rosina Worth, Eira Wyn Hughes, Jina Keller. **Cynorthwywragaedd:** Ros Hughes, Elfrys Jones, Rosina Worth, Glenys Marzellos, Valmai Williams.

Ac yn awr, ymlaen am y ddeng mlynedd nesaf. Gyda'r cwtogi presennol ym myd addysg mae gwaith gwerthfawr i'w wneud gan Fudiad yr Ysgolion Meithrin. Bobl yr ardal, cefnogwch ni.

Dymuna Pwyllgor presennol yr Ysgol Feithrin ymestyn eu diolch i Mrs Jina Keller a Mrs Valmai Williams am eu gwaith da gyda'r plant a'u brwdfrydedd di-ben-draw.

**Cyfarchion Nadolig**




I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...
**Osmond W. Shaw**
DEINIOLEN
*Ffôn:*
*LLANBERIS 870545*
**Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore**

**IEUAN WILLIAMS**
Glanffrwd
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870484**
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232
**BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS**
**Hefyd gwerthwyr CALOR GAS**

## Dyddiadur y Mis


**RHAGFYR:**
21, Gwener: YR ARDAL: Ysgolion yn cau dros Ŵyl y Nadolig.
PENISARWAUN: Gyrfa Chwist Nadolig yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
22, Sadwrn: LLANRUG: Cinio Nadolig y Seindorf ym Mhlas Tandinas.
23, Sul: LLANRUG: Gwasanaeth Carolau Undebol yng Nghapel Mawr am 5.30.
LLANBERIS: Eglwys Sant Padarn – Drama'r Geni gan blant yr Ysgol Sul am 5.30.
Gwasanaeth Nadolig y Plant yng Nghapel Coch am 5.30.
'Cyngerdd Mawreddog' gyda Chôr Meibion Caernarfon a'r unawdydd Marian Roberts yn Eglwys Sant Padarn am 7.45. Mynediad: £1.
DEINIOLEN: Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Disgwylfa am 5.30.
PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen – Gwasanaeth Cristingl am 3.30.
24, Llun: LLANBERIS: Noson 'Cawl a Charolau' yn Festri Capel Coch am 10 p.m.
26, Mercher – Gŵyl Sant Steffan: LLANBERIS: Ras Bramiau dan nawdd y Clwb Pêl-droed – man cychwyn – y Warws am 1.30.
28, Gwener: WAUNFAWR: Disgo i'r plant yn y Ganolfan.
30. Sul: LLANBERIS: Eglwys Sant Padarn – Gwasanaeth 'Naw Llith a Charol' am 5.30.
31, Llun: DEINIOLEN: Cinio Nadolig y Seindorf yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.
**IONAWR:**
3, Iau: WAUNFAWR: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched ym Mhlas y Coed, Betws Garmon.
BETHEL: Aelodau'r Urdd yn ymweld â'r Pantomeim yn Theatr Gwynedd.
4, Gwener: YR ARDAL: Clwb Eryri – anerchiad gan Mr Bob Williams.
7, Llun: YR ARDAL: Yr ysgolion yn ailddechrau.
8, Mawrth: BETHEL: Y Gymdeithas Undebol – Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Saron.
14, Llun: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched – sgwrs gan Mr Cledwyn Williams, Llanrug.
WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol – sgwrs gan Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin ar ei yrfa fel Cyfreithiwr.
15, Mawrth: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol.
18, Gwener: LLANBERIS: Clwb yr Henoed.
23, Mercher: BETHEL: Clwb y Mamau.
24, Iau: WAUNFAWR: Merched y Wawr – sgwrs gan Mr W.R. Lewis y dramodydd o Langefni.
29, Mawrth: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol.

## LOGO I C.I.C.

Ffurfiwyd Clwb i'r Campau (CIC) yn Steddfod Llambed. Bwriad y Clwb yw hybu cydweithrediad ymhlith Cymry Cymraeg sy'n sgrifennu neu'n darlledu am chwaraeon; helpu i gyhoeddi llenyddiaeth am chwaraeon yn yr iaith Gymraeg ac anrhydeddu Cymry Cymraeg sydd ar frig eu camp.

Mae angen logo i CIC. Os oes gennych ddawn cynllunio beth am roi cynnig arni. Y gystadleuaeth ar agor hyd ddiwedd Ionawr 1985. Y wobr – dau docyn eistedd i unrhyw un gêm gydwladol o ddewis yr enillydd. Anfoner y cynigion at R. Alun Evans, BBC, Bryn Meirion, Bangor, Gwynedd LL57 2BY.

## CROESAIR Y NADOLIG



**I LAWR:**
1. "Iesu ----- cwsg yn ber, yn dy grud" (heb y treiglad) (5)
2. Un o anrhegion y doethion (3)
3. O'r sel neu gymysgfa y daw'r rhodd (6)
4. "---- Fendigaid oedd y fam." (4)
5. Lliw (2)
6. Herod (6)
10. "Ti yw'r –, mab y Duw byw." (5)
11. Cyfnod o dywyllwch (3)
13. Ennaint (3)
15. Costus (4)
16. Basged (5)
20. "Gŵyl y –" (4)
21. Gwneud sŵn cerddorol (4)
22. " – a dyn sydd un yn awr."
24. "– i Fethlehem, pawb dan ganu."
25. Mynwes (3)
27. Drws (3)
28. Dyffryn (3)

**AR DRAWS:**
1. Mae lle o'r un enw yng Nghymru (8)
7. Mae'n gofalu am ddefaid (6)
8. Un o'r anrhegion (3)
9. Mae'r anifail yn cuddio yn y Las Ynys (4)
10. Serchus (2)
11. Yr awyr wedi ei chwtogi (2)
12. Gabriel, er enghraifft (4)
13. Oddi ar (2)
14. "Tri 'ym –" (2)
15. Tegan i eneth, fel arfer (4)
17. Sôn (2)
18. Anrheg arall (4)
19. Gair negyddol (2)
21. Gwely baban (4)
23. Distaw (5)
26. Aderyn y Ddrycin (7)
29. Bachgen Nadoligaidd? (4)
30. Gwedd (3)
31. Gyferbyn â'r gorllewin (7)

**Atebion Croesair Tachwedd**
**Ar draws:** 1. Enwi neb, 3. Tocyn, 6. Helgi, 8. Tebot Piws, 10. Nôl, 12. Ôl, 13. Te, 16. Yna, 17. Sir y Fflint, 19. Incwm, 20. Radio, 21. Tir Glas.
**I lawr:** 1. Ei het, 2. Neilltuo, 3. Trais, 4. Cyfansoddi, 5. Nadolig, 7. Cais, 9. Bwyd a diod, 11. Diystyr, 14. Eifftiwr, 15. Braw, 17. Swnio, 18. Tomos.

**Enillydd:** Mrs C. Williams, Gwelfryn, Llanrug.



Beth glywir o
LWYNCOED CWM-Y-GLO?
Ffôn: Llanberis 870563
Na, nid tylluanod ond. . .
Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym musnes llefrith
EIRWYN A SYLVIA WILLIAMS
i gwsmeriaid hen a newydd.
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol 1984

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
GWILYM O. ROBERTS
Weirglodd Goch
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 871407

LLEFRITH, WYAU, TATWS A LLAWER MWY – AT EICH DRWS

# CHWARAEON

## Y GOLOFN SNWCER

**gan Aeron Jones**

### CYNGHRAIR BANGOR A'R CYLCH

#### ADRAN A

| Safle | Ch | E | Cyf | Colli | O Bl | Yn Erb | Pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Gleision Ll'rug | 15 | 11 | 2 | 2 | 64 | 26 | 24 |
| 9 Duon D'iolen | 15 | 6 | 4 | 5 | 50 | 40 | 16 |
| 14 Gleision D'iolen | 15 | 1 | 5 | 9 | 28 | 62 | 7 |
| 15 Cochion Ll'rug | 15 | 1 | 4 | 10 | 27 | 63 | 6 |

#### ADRAN B

| Safle | Ch | E | Cyf | Colli | O Bl | Yn Erb | Pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 Gleision Bethel | 13 | 7 | 3 | 3 | 47 | 31 | 17 |
| 7 Duon Bethel | 13 | 6 | 2 | 5 | 41 | 37 | 14 |
| 12 Cochion D'iolen | 13 | 2 | 6 | 5 | 35 | 40 | 10 |

**Canlyniadau**

**Duon Deiniolen:**
3 : 3 Cochion Llanrug
4 : 2 Gleision Crosville
5 : 1 Ceidwadwyr Caernarfon (Duon)
1 : 5 Clwb Llafur Llangefni

**Gleision Deiniolen:**
0 : 6 Gleision Llanrug
2 : 4 Duon Crosville
2 : 4 Ceidwadwyr Caernarfon (Gleision)

**Gleision Llanrug:**
6 : 0 Gleision Deiniolen
5 : 1 Duon Nantlle
1 : 5 Clwb Llafur Llangefni

**Cochion Llanrug:**
**3 : 3 Duon Deiniolen**
**3 : 3 Gleision Nantlle**
**2 : 4 Gleision Marbryn**

**Gleision Bethel:**
2 : 4 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)
2 : 4 Cochion Deiniolen
4 : 2 Cochion Groeslon

**Duon Bethel:**
4 : 2 Clwb Cymdeithasol Bangor (Gleision)
2 : 4 Clwb Brown Nantlle
2 : 4 Duon Groeslon

**Cochion Deiniolen:**
4 : 2 Gleision Bethel

Ym mis Tachwedd cafwyd toriadau gan:
G. Griffiths – 38, 34, 33
C. Griffiths – 40, 34

Mae'r ddau chwaraewr yn aelodau o dîm Gleision Llanrug.

**CWPAN PATTISSON**

Nos Iau chwaraeodd tîm Gleision Llanrug yn erbyn tîm Duon Deiniolen yng nghwpan Pattisson.

Gyda Llanrug yn gyntaf yn yr adran a Deiniolen yn y gwaelodion roedd eisiau gwyrth ar Ddeiniolen i guro Llanrug. Ond ar y noson, agos fu'r ddau dîm.

Aeth Llanrug ar y blaen yn y ddwy ffrâm gyntaf gyda G. Griffiths yn curo. A. Williams 58 i 54 a C. Griffiths yn cael toriad o 34 i guro E. Grindley o 48 i 24.

Roedd gêm K. Griffiths a K. Lewis yn un ryfedd iawn. Er mai K. Lewis oedd yn ennill y rhan fwyaf o'r pwyntiau, rhywsut neu'i gilydd K. Griffiths oedd yn curo. Pan oeddynt ar y bêl las, gwnaeth K. Lewis gamgymeriad a gostiodd y ffrâm iddo. Gafaelodd yn y bêl wen gan feddwl fod y bêl newydd ddod o'r boced. Yn y diwedd colli fu ei hanes o 80 i 51. Yr unig aelod o dîm Deiniolen i guro oedd M. Jones, a gurodd T. Brobyn, 45-37.

Erbyn hyn roedd Llanrug ar y blaen 3-1 ac nid oedd angen curo ond un gêm arall i fynd ymlaen i'r rownd nesaf. Cafodd G. Grindley gêm dda yn erbyn K. Williams ond oherwydd camgymeriad gan Grindley ar y binc, fe gliriodd K. Williams y bwrdd i guro 49 i 29.

Ar y bwrdd arall roedd T. Owen yn erbyn I. Williams. Araf fu dechrau'r gêm gyda'r ddau chwaraewr yn chwarae'n ddiogel. Ar ôl i Grindley golli ar y bwrdd gyferbyn fe aeth y pwysau oddi ar y ddau chwaraewr a chafwyd sioe gwerth ei gweld. Curo wnaeth T. Owen 49 i 41, 5 ffrâm i 1 ar y noson i Lanrug.

Pob lwc i dîm Llanrug nos Iau, Rhagfyr 20, yn erbyn Clwb Llafur Llangefni yn rownd gyn-derfynol Cwpan Pattisson.

—

Yng nghystadleuaeth Gogledd Cymru, curodd tîm Gleision Llanrug 4-2 yn erbyn Clwb Grosvenor Shotton, a chollodd tîm Duon Deiniolen 4-2 yn erbyn Clwb Llafur Cyffordd Llandudno. Mae I. Williams ac E. Grindley yn y bedwaredd rownd o'r gystadleuaeth. Colli oedd hanes G. Grindley yng nghystadleuaeth Cwpan Malcolm Morris yn erbyn cyn-frodor o Ddeiniolen, John Williams.

**PROFFEIL O DÎM COCHION DEINIOLEN**

Tîm newydd i'r adran yw tîm cochion Deiniolen. Dyma'i dymor cyntaf yn y Gynghrair. Ceir 10 aelod yn y tîm ac mae'r tîm i gyd o dan 21 oed, felly tîm ifanc iawn ydynt.

Doedd dim un aelod o'r tîm yn gwybod beth i'w ddisgwyl pan gafwyd eu gêm gyntaf yn erbyn tîm Ceidwadwyr gleision y Felinheli. Roedd y gêm yn un agos ac roedd yr un pwynt a enillwyd yn bwynt da i'r tîm. Capten y tîm yw Colin Worth, a'r is-gapten yw Merfyn Morris.

**Canlyniadau'r Tîm Hyd yn Hyn**
**(DEINIOLEN 1af)**

| | Pwyntiau | Cyfanswm |
|---|---|---|
| 3:3 Ceidwadwyr Gleision Felinheli | 1 | 1 |
| 2:4 Cochion Marbryn | 0 | 1 |
| 2:4 Ceidwadwyr Duon Bangor | 0 | 1 |
| 1:5 Llanfair PG Duon | 0 | 1 |
| 5:1 Duon Bethesda | 2 | 3 |
| 2:4 Cochion Groeslon | 0 | 3 |
| 3:3 Duon Bethel | 1 | 4 |
| 3:3 Clwb Brown Nantlle | 1 | 5 |
| 3:3 Clwb Cymdeithasol Gleision Bangor | 1 | 6 |
| 1:5 Gleision Porthaethwy | 0 | 6 |
| 3:3 Duon Groeslon | 1 | 7 |
| 3:3 Cochion Bethesda | 1 | 8 |
| 4:2 Gleision Bethel | 2 | 10 |

| | CYNGHRAIR | | | CWPAN | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ch | E | Colli | Ch | E | Colli |
| 1. Colin Worth | 13 | 6 | 7 | 2 | 1 | 1 |
| 2. Merfyn Morris | 12 | 7 | 5 | 1 | 1 | - |
| 3. Haydn Williams | 11 | 8 | 3 | 2 | 2 | - |
| 4. Jason Jones | 13 | 7 | 6 | 2 | 1 | 1 |
| 5. Elfed Williams | 5 | 1 | 4 | 1 | - | 1 |
| 6. Geraint Jones | 4 | 1 | 3 | - | - | - |
| 7. Ricky Deemer | - | - | - | - | - | - |
| 8. Bryn Jones | 2 | - | 2 | 1 | - | 1 |
| 9. Dewi Williams | 9 | 2 | 7 | 2 | 1 | 1 |
| 10. Kevin J. Jones | 5 | 2 | 3 | 1 | - | 1 |

**Cwpan Pattisson**
**Rownd 1af**
Curo 4-2 yn erbyn Clwb Duon Nantlle

**2il Rownd**
Colli 4-2 yn erbyn Ceidwadwyr Duon Felinheli.



**O'r chwith i'r dde, rhes gefn:** *Kevin Jones, Colin Worth, Mervyn Morris, Geraint Jones, Bryn Jones.* **Rhes flaen:** *Elfed Williams, Haydn Williams, Jason Jones. Yn absennol o'r llun mae Ricky Deemer a Dewi Williams.*

## HWYLIO'N Y FELINHELI



*Steven Owen, 1 Craig Dinas, (Stabla) gyda'i gwch 'Lacer'*

Bu Steven Owen, sy'n byw bellach yn 1 Craig Dinas (neu Stabla i ddarllenwyr yr Eco) yn hwylio cychod ers pan oedd tua 9 oed, ac yn byw'n y Felinheli. Eleni cafodd ei dymor mwyaf llwyddiannus gan ennill llu o wobrau rhwng mis Mawrth a mis Hydref.

Dyma'r holl wobrwyon:
Cyfres Mercher – ennill unwaith:
Cyfres Sadwrn – ennill deirgwaith.
Tlws John G. Jones
Pennant S.M.F.
Pennant P.D.S.C.
Regatta Felinheli.

Oherwydd yr holl lwyddiant, fe'i gwobrwywyd hefyd â tharian J.E. Morris – am ennill y nifer mwyaf o gystadlaethau mewn tymor.

Mae hefyd gyda'i bartner Julian Morewood wedi ennill cystadleuaeth i ddau – Cyfres B. Pob llwyddiant iddo'n y dyfodol.

**LLONGYFARCHION**

**Mae Llinos Davies, Llanrug wedi ennill 'Award of Merit' mewn cwrs Achub Bywyd ym Mhwll Nofio, Bangor. Mae hyn yn dilyn ei llwyddiant yn y Safon Efydd y llynedd. Gan nad yw ond 15 oed, rhaid iddi bellach ddisgwyl am flwyddyn cyn cael ceisio am y Safon Arian.**